

Ffurflen Aseiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant

Enw'r Awdurdod Lleol: Cyngor Sir Fynwy

Enw'r Swyddog Cyfrifol: Sue Hall, Rheolwr y Blynyddoedd Cynnar

Dyddiad Cwblhau: 12^{fed} Ionawr 2017

1. Cyflwyniad

Cynnal yr Asesiad – Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant

Ynghyd â sefydlu darpariaeth sylfaenol, bydd yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant yn galluogi'r Awdurdod Lleol i:

- fesur natur a maint yr angen am ofal plant, a chyflenwad gofal plant yn yr ardal
- adnabod y bylchau yn y farchnad a chynllunio sut i helpu'r farchnad i fynd i'r afael â hwy

Mae templed wedi'i gynhyrchu i gefnogi gwerthusiad corfforaethol o'r materion sydd angen eu hystyried fel yr amlinellir hwy yn y Canllawiau Statudol.

Mae'n rhaid i'r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant ddangos bod yr Awdurdod Lleol wedi ystyried ac wedi asesu'r materion a amlinellir yn Neddf Plant 2006 (Asesiad yr Awdurdod Lleol) (Cymru) Rheoliadau 2016 a'r Canllawiau Statudol.

Prif Ddatganiad

Mae gan yr Awdurdod Lleol ddyletswydd statudol dan Ddeddf Gofal Plant 2006 i sicrhau bod digon o ofal plant i gwrdd ag anghenion rhieni sy'n gweithio; i gynnal Asesiadau o Ddigonolrwydd Gofal Plant; a darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth mewn perthynas â gofal plant drwy'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd.

Datganiad cenhadaeth Cyngor Sir Fynwy yw creu cymunedau cynaliadwy a chydnerth; caiff y datganiad ei rannu i dair thema benodol;

- Ni chaiff Neb ei Adael ar ôl
- Mae Pobl yn Hyderus, yn Alluog ac yn Gyfranogol
- Mae'n Sir yn Ffynnu

Er mwyn gwireddu hyn, mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod pwysigrwydd darpariaeth gofal plant o ansawdd uchel sy'n hyblyg ac yn hygyrch.

2. Cynnwys

1. Cyflwyniad/ Cyd-destun
2. Gweithio mewn Partneriaeth ac Ymgynghori
3. Yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant ac Asesiad o Anghenion Lles Lleol
4. Poblogaeth
5. Trosolwg – Mathau o Ofal Plant, Gwasanaethau a Llefydd
6. Cyflenwi Gofal Plant
 - 6.1. Gwarchodwr Plant
 - 6.2. Meithrinfa Ddydd Llawn
 - 6.3. Gofal Dydd Sesiynol
 - 6.4. Crèche
 - 6.5. Gofal y tu allan i Oriau Ysgol
 - 6.6. Darpariaeth Chwarae Mynediad Agored
 - 6.7. Mamaeth
7. Deall Anghenion Rhieni/Gofalwyr
 - 7.1. Defnydd Cyfredol
 - 7.2. Galw am Ofal Plant
 - 7.3. Rhwystrau i Ddarpariaeth Gofal Plant
8. Addysg Feithrin yn Rhad ac Am ddim a Darpariaeth Dechrau'n Deg
9. Darpariaeth Clybiau Brecwast yn Rhad ac Am ddim
10. Credyd Treth Gwaith/Credyd Cynhwysol a Gofal Plant a Gefnogir gan y Cyflogwr/Gofal Plant Di-dreth
11. Cynaliadwyedd
12. Ar Draws Ffiniau
13. Datblygiad Gweithlu a Hyfforddiant
14. Canlyniadau'r Ymgynghori gyda Rhanddeiliaid (fel yr amlinellir yn adran 2)
15. Crynodeb – Dadansoddiad o'r Bylchau a Meysydd ar gyfer Gwelliant
16. Cynllun Gweithredu

Atodiadau

Atodiad 1	Data Cyflenwi Mamaeth
Atodiad 2	Data Cyflenwi Meithrinfa Ddydd Llawn
Atodiad 3	Data Cyflenwi Gofal Dydd Sesiynol
Atodiad 4	Data Cyflenwi'r Crèche
Atodiad 5	Data Cyflenwi Gofal y tu allan i Oriau Ysgol
Atodiad 6	Data Cyflenwi Darpariaeth Chwarae Mynediad Agored
Atodiad 7	Data Cyflenwi Mamaeth
Atodiad 8	Data Defnydd Cyfredol i Rieni
Atodiad 9	Data Galw am Ofal Plant gan Rieni
Atodiad 10	Darpariaeth Addysg Blynnyddoedd Cynnar Ran Amser (Cyfnod Sylfaen)
Atodiad 11	Darpariaeth Dechrau'n Deg
Atodiad 12	Credyd Treth Gwaith/Credyd Cynhwysol a Gofal Plant a Gefnogir gan y Cyflogwr/Gofal Plant Di-dreth
Atodiad 13	Datblygiad Gweithlu a Hyfforddiant
Atodiad 14	Cynllun Gweithredu

1. Cyflwyniad/ Cyd-destun

Mae Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd Sir Fynwy yn dal manylion yr holl ddarpariaeth gofal plant ledled Sir Fynwy, y rheiny wedi'u cofrestru a heb eu cofrestru. Defnyddiwyd y wybodaeth hon, wedi'i chyfuno â data AGGCC a gasglwyd drwy gyfrwng datganiadau SASS darparwyr, i hysbysu adrannau gofal plant o'r Asesiad hwn o Ddigonolrwydd Gofal Plant (ADdGP). Defnyddiwyd arolwg ar-lein i ymgynghori â rhieni er mwyn casglu'u safbwyntiau ar ofal plant yn Sir Fynwy, dadansoddi fel y defnyddir ef ar hyn o bryd, adnabod rhwystrau posib i ddefnyddio gofal plant ac asesu'r galw am ofal plant yn y dyfodol. Ymgynghorwyd hefyd â rhanddeiliaid perthnasol ac adrannau eraill yr Awdurdod Lleol a chynhwyswyd hwy o fewn y ddogfen hon.

Cyn ei gyflwyno, fe rennir yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant gyda chydweithwyr o fewn y Gyfarwyddiaeth Plant a Phobl Ifanc ac aelodau o Bartneriaeth Datblygiad a Gofal Plant y Blynnyddoedd Cynnar. Fe'i rhennir yn ogystal gyda Chynghorwyr Sir ac fe'i cymeradwyr gan aelodau'r Cabinet. Yn dilyn hyn, bydd yr ADdGP ar gael ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ar wefan yr Awdurdod Lleol a gwefan GGD, cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Y brif her wrth gynnal yr ADdGP hwn oedd sicrhau cywirdeb y data, gan fod graddfa ymateb rhieni i'r holiadur yn fechan iawn a dim ond 70% yn unig o ddarparwyr gofal plant a ddychwelodd eu datganiad SASS. Felly, casglwyd gwybodaeth ychwanegol oddi wrth ddarparwyr gofal plant heb eu cofrestru a'r rheiny na allent gwblhau'u datganiad SASS a chynhwyswyd y data hyn o fewn yr ADdGP. Fodd bynnag, mae'r data a gynhwysir o fewn yr atodiadau'n anghyflawn gan nad atebodd nifer o ddarparwyr rai o'r cwestiynau o fewn eu datganiad SASS ac mae'n amlwg fod rhai cwestiynau wedi'u dehongli mewn gwahanol ffyrdd gan wahanol ddarparwyr.

Bydd y camau gweithredu a nodir yng nghynllun gweithredu'r ADdGP yn ffurfio sylfaen ein Cynllun Gwelliant y Blynnyddoedd Cynnar am y pum mlynedd nesaf a chaiff y cynnydd a wnaed yn erbyn y targedau hyn ei fonitro a'i gofnodi'n chwarterol. Dyrennir cyllid sydd ar gael drwy'r Grant Cynnal Ardrethi (GCA) a dyrennir cyllid nawdd allanol i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau hyn.

2. Gweithio mewn Partneriaeth ac Ymgynghori

Anfonwyd holiaduron ymgynghori i'r holl randdeiliaid perthnasol i dderbyn eu barn ar y galw, y cyflenwi ac ansawdd y ddarpariaeth gofal pant ledled Sir Fynwy. Gofynnwyd iddynt yn ogystal am eu barn ar y modd y cyfarfyddir ag anghenion grwpiau agored i niwed ac unrhyw welliannau maent yn eu hystyried yn angenrheidiol.

Teimlai Bwrdd Diogelu Plant De-ddwyrain Cymru nad oeddent mewn sefyllfa i wneud sylw ar ddarpariaeth gofal plant a oedd yn benodol bob Awdurdod Lleol o fewn eu rhanbarth, fodd bynnag, fe ddarparwyd yr ymateb canlynol ganddynt mewn perthynas â'r hyfforddiant ar gyfer gweithwyr gofal plant yn Ne-ddwyrain Cymru. "Mae Bwrdd Diogelu Plant De-ddwyrain Cymru yn darparu rhaglen o hyfforddiant diogelu amlasiantaethol sydd ar gael ar draws yr holl ranbarth, byddai hyn wrth gwrs yn cynnwys mynediad i'r ddarparwyr hynny sy'n gwneud i fyny'r gweithlu gofal plant. Cytunodd y Bwrdd fod strategaeth hyfforddi ar gael ar y wefan www.sewsc.org.uk sy'n ceisio cydweddu cyfranogwyr hyfforddiant â hyfedredd swydd, felly dylai hyn alluogi pobl broffesiynol i gydweddu'u gofynion hyfforddiant gyda'r cyrsiau sydd ar gael".

Mae cynrychiolydd o'r Blynnyddoedd Cynnar yn aelod o'r Fforwm Addysg Cyfrwng Cymraeg a chynhwysir cynyddu darpariaeth lleoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg o fewn y Cynllun Strategol Cymraeg Mewn Addysg (CSCA). Trafodir hyn yn y rhan fwyaf o gyfarfodydd fforwm. Cynhwyswyd yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant ar yr agenda yn y cyfarfod a gynhaliwyd yn nhymor yr haf ac fe'i dilynwyd yn ddiweddarach gan holiadur fel y gallai aelodau'r fforwm ymateb ar ran y sefydliadau unigol y maent yn eu cynrychioli. Defnyddiwyd y safbwyntiau hyn i hysbysu Cynllun Gweithredu'r ADdGP, ynghyd â'i fwydo i'r CSCA.

Mae cynrychiolydd gofal plant yn y Grŵp Monitro Chwarae; yn anffodus nid oedd cyfarfod yn ystod y cyfnod ymgynghori, felly nid oedd yn bosib ei drafod fel eitem ar yr agenda. Cylchynwyd holiadur i holl aelodau'r Grŵp Monitro Chwarae i roi cyfle iddynt ddarparu'u safbwyntiau ac fe ddefnyddiwyd y rhain i hysbysu'r ADdGP. Caiff unrhyw fylchau perthnasol y tynnir sylw atynt gan yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant eu bwydo i mewn i'r Asesiad o Ddigonolrwydd Chwarae a byddwn yn gweithio'n glos gydag aelodau'r Grŵp Monitro Chwarae i fynd i'r afael â'r materion hyn, yn arbennig mewn perthynas â darpariaeth chwarae mynediad agored a chynlluniau chwarae adeg gwyliau.

Yn y gorffennol, mynychodd cynrychiolydd Job Centre Plus gyfarfodydd Partneriaeth Datblygiad y Blynnyddoedd Cynnar a Gofal (PDBCGP) gan ddarparu data ar ein cyfer i hysbysu'r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant. Yn anffodus bu nifer o newidiadau o fewn y staff dros yr ychydig flynyddoedd diweddar ac nid yw Job Centre Plus wedi mynychu cyfarfodydd PDBCGP. Er gwaethaf sawl cais am wybodaeth, ni dderbyniwyd unrhyw ymateb, felly ni fu'n bosib cynnwys y manylion hyn o fewn yr ADdGP.

Cynrychiolir y rhan fwyaf o sefydliadau ymbarél gofal plant ar ein Partneriaeth Datblygiad y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant ac mae perthynas waith dda rhyngom. Mae nifer o'r sefydliadau hyn yn derbyn peth nawdd i ddarparu cefnogaeth i leoliadau'u haelodau ac rydym yn cydweithio i gytuno a monitro targedau. Trafodwyd yr Aseiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant mewn sawl cyfarfod PDBCGP a chwblhaodd yr holl sefydliadau ymbarél holiadur â'u safbwyntiau ar ofal plant yn Sir Fynwy fel rhan o'r broses ymgynghori. Rhoddwyd ystyriaeth i'r safbwyntiau hyn ac fe'u defnyddiwyd i hysbysu'r ADdGP; trafodir unrhyw fylchau y tynnwyd sylw atynt a'r camau gweithredu a nodwyd gyda'r sefydliadau ymbarél a chaiff nawdd yn y dyfodol ei dargedu'n unol â hynny.

Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn ffynhonnell werthfawr o wybodaeth ac fe'i defnyddiwyd ar y cyd â datganiadau'r SASS ac arolygon rhieni i hysbysu adrannau galw a chyflenwi'r Aseiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant; cyhoeddir yr ADdGP gorffenedig ar wefan GGD fel ei fod yn hygyrch i rieni/ofalwyr, gweithwyr gofal plant a phobl broffesiynol arall.

Ymgynghorwyd â phob Awdurdod Lleol cyfagos, cydweithwyr ynghyd â Swyddogion Addysg y Blynyddoedd Cynnar a Gwybodaeth i Deuluoedd, er mwyn sefydlu'r galw am ofal plant y tu allan i Sir Fynwy. Crynhoir y wybodaeth hon ac fe'i cynhwysir o fewn adran Traws Ffin yr adroddiad hwn (adran 12).

Roedd y rhanddeiliaid eraill yr ymgynghorwyd â hwy yn cynnwys ysgolion ac adrannau eraill yr Awdurdod Lleol megis Cynllunio, Ysgolion Iach a Chymdeithas Tai Sir Fynwy. Cymerodd yr ymgynghoriad hwn ffurf holiaduron, e-byst a thrafodaethau wyneb yn wyneb. Cysylltwyd hefyd â chyflogwyr lleol gan ddefnyddio rhestr a ddelir yn ganolog gan dîm Cyfathrebu'r Awdurdod Lleol a chwblhaodd llawer arolwg ar-lein. Er mai ychydig oedd nifer yr ymatebion a dderbyniwyd, roeddent yn cyfeirio at rwystrau a wynebir gan rieni sy'n dychwelyd i'r gwaith a'r rychwant o wasanaethau gofal plant sy'n ofynnol i gwrdd â'u hanghenion.

Yn olaf, cynhaliwyd grwpiau ffocws gyda phlant rhwng 4 & 11 oed sy'n mynychu darpariaeth gofal plant y tu allan i oriau ysgol. Ymgynghorwyd â chyfanswm o 142 o blant fel rhan o'r broses hon er mwyn cael eu barn ar eu darpariaeth gofal plant, y rhesymau dros fynychu ac unrhyw welliannau yr hoffent eu gweld. Ar y cyfan, roedd yr ymatebion hyn yn gadarnhaol iawn ac yn cefnogi'r farn gyffredinol bod ansawdd gofal plant yn Sir Fynwy o safon uchel iawn.

3. Yr Aseiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant ac Aseiad o Anghenion Lles Lleol

Cyn cwblhau'r Aseiad hwn o Ddigonolrwydd Gofal Plant, cynhaliwyd trafodaeth gydag aelodau Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n gyfrifol am gynnal Aseiad o Anghenion Lles Lleol ar ran Cyngor Sir Fynwy.

Rhannodd yr Aseiad o Anghenion Lles Lleol Sir Fynwy i mewn i bum ardal:

- Y Fenni
- Cil-y-coed
- Cas-gwent
- Trefynwy
- Brynbuga a Rhaglan

Er mwyn sicrhau cysondeb a chyfrannu i'r Aseiad o Anghenion Lles Lleol, defnyddiwyd yr un pum ardal o fewn yr Aseiad hwn o Ddigonolrwydd Gofal Plant.

Mae tipyn o ymgynghori eisoes wedi digwydd gyda thrigolion Sir Fynwy i hysbysu'r Aseiad o Anghenion Lles Lleol ac ni chodwyd gofal plant fel testun pryder gan unrhyw rai o'r trigolion hyn. Fodd bynnag, cynhaliwyd trafodaethau hefyd ym marics y fyddin a leolir ychydig dros y ffin yn Sir Gaerloyw, gan fod llawer o'r trigolion yn cyrchu gwasanaethau yn Sir Fynwy gan mai Cas-gwent yw eu tref agosaf. Cododd rhai o'r teuluoedd hyn ofal plant fel testun pryder, am nad oes ganddynt, mewn sawl achos, deulu'n byw gerllaw i ddarparu cymorth gyda gofal plant. Yn arbennig, roedd angen cyfleusterau crèche debyg arnynt er mwyn iddynt allu mynychu apwyntiadau, mynd i'r gampfa ac yn y blaen. Rhoddir ystyriaeth i'r safbwyntiau hyn fel rhan o'r Aseiad hwn o Ddigonolrwydd Gofal Plant.

Caiff unrhyw fylchau y tynnir sylw atynt drwy'r Aseiad hwn o Ddigonolrwydd Gofal Plant eu bwydo i mewn i'r Aseiad o Anghenion Lles Lleol.

4. Poblogaeth

Lleolir Sir Fynwy yn Ne-ddwyrain Cymru ac mae mewn man strategol rhwng y prif ganolfannau yn Ne Cymru a De-orllewin Lloegr a Chanolbarth Lloegr. Mae'n agos i ddinasoedd mawr Caerdydd a Chasnewydd, mae'n gorwedd ar goridor yr M4 tuag at Fryste ac mae ar ymyl Blaenau'r Cymoedd. Mae'n awdurdod gwledig yn bennaf ac mae'n ffurfio rhan o Ardal o Harddwch Naturiol Dyffryn Gwy. Mae'n ffinio â chwe awdurdod lleol arall, pedwar yng Nghymru (Torfaen, Casnewydd, Blaenau-Gwent a Phowys) a dau yn Lloegr (Swydd Henffordd a Swydd Gaerloyw). Caiff ei ystyried yn un o'r awdurdodau lleol mwyaf llewyrchus yng Nghymru.

- Oni chrybwyllir yn wahanol, seilir y wybodaeth ddemograffig o fewn y ddogfen hon ar ddata o Gyfrifiad 2011, ynghyd ag amcangyfrifon poblogaeth mwy diweddar a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru. Dyma'r un wybodaeth ag a ddefnyddiwyd gan yr awdurdod lleol i ddatblygu'r Asesiad o Anghenion Lles Lleol.

Ffigurau Poblogaeth

Mae poblogaeth Sir Fynwy wedi cynyddu'n gyson dros y 25 mlynedd ddiwethaf, fel mae poblogaeth Cymru at ei gilydd. Dengys data'r cyfrifiad fod gan Sir Fynwy boblogaeth o 91,323 yn 2011 ac mae data diweddar yn dangos, yn 2015, fod y boblogaeth wedi cynyddu o 1.26% i 92,476. Disgwylir i hyn gynyddu ymhellach gan gyrraedd 93,341 erbyn 2021 a 93,925 erbyn 2029, cyn lleihau'n raddol. Mae amcanestyniadau'n dangos y bydd y boblogaeth wedi lleihau i 92,452 erbyn y flwyddyn 2039.

Adeg y cyfrifiad diwethaf yn 2011 roedd cyfanswm y plant o fewn oedran 0 - 17 yn 18,871, roedd hyn 20.66% o'r cyfanswm poblogaeth. Amcanestynnir y bydd y nifer hwn wedi cynyddu erbyn 2016 a bydd yn cynyddu eto erbyn 2021. Ta waeth, awgryma amcanestyniadau fod gan Sir Fynwy boblogaeth sy'n heneiddio ac, os bydd tueddiadau cyfredol yn parhau, bydd hyn yn lleihau i oddeutu 18.7% erbyn 2039.

Graddfa Oedran	Data 2011	Amcanestynnir ar gyfer 2016	Amcanestynnir ar gyfer 2021
0 – 2	2,714	2,760	2,769
3 – 4	1,923	1,932	1,938
5 – 7	2,852	2,852	2,861
8 – 10	2,957	2,944	2,954
11 – 14	4,646	4,600	4,615
15 – 17	3,779	3,864	3,877
Cyfanswm	18,871	18,952	19,014

Graddfeydd Genedigaethau Byw

Roedd 796 o enedigaethau byw yn Sir Fynwy rhwng 1^{af} Medi 2015 a 31^{ain} Awst 2016; gellir dadansoddi'r ffigurau i mewn i ardaloedd fel a ganlyn:

Y Fenni – 177

Cil-y-coed – 202

Cas-gwent – 242

Trefynwy – 121

Brynbuga a Rhaglan – 54

Mae'r ffigur hwn 3% yn is nag a gofnodwyd yn yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant yn 2014.

Ym Medi 2016, roedd 4,840 o blant yn Ysgolion Uwchradd Sir Fynwy (cynnydd o 75 o ddisgyblion o'r flwyddyn flaenorol) a 6,558 o blant yn Ysgolion Cynradd Sir Fynwy (cynnydd o 18 o ddisgyblion o'r flwyddyn flaenorol).

Plant ag Anabledd

Mae 125 o blant anabl yn Sir Fynwy wedi'u cofrestru gyda'r tîm Plant ag Anableddau; mae'r rhain yn cynnwys 67 o blant ar y Mynegai Anabledd (ar 31/10/2016).

Yn ystod Tymor yr Haf 2016, ariannodd adran Blynnyddoedd Cynnar Sir Fynwy gymorth ychwanegol i alluogi 25 o blant ag

anghenion ychwanegol fynychu lleoliadau cyn ysgol ac 11 o blant ag anghenion ychwanegol fynychu clybiau ar ôl ysgol a chlybiau gwyliau.

Mae 1,029 o blant â mân anableddau ac anableddau mawr neu oediadau mewn datblygiad yn ysgolion cynradd Sir Fynwy (508 SA, 407 SA+ a 114 â datganiad); mae hyn yn union yr un fath â'r flwyddyn flaenorol. Mae 864 o blant â mân anableddau ac anableddau mawr neu oediadau mewn datblygiad yn ysgolion uwchradd Sir Fynwy (515 SA, 210 SA+ a 139 â datganiad); mae hyn yn gynydd o 112 o blant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Plant sy'n Agored i Niwed

O Fehefin 2015, roedd 395 o blant mewn angen yn Sir Fynwy (20 o dan 1 oed, 65 rhwng 1-4 oed, 115 rhwng 5-9 oed, 150 rhwng 10-15 oed a 45 rhwng 16-17 oed).

O Hydref 2016, roedd gan Gyngor Sir Fynwy 118 o blant sy'n derbyn gofal, a dorrir i lawr i'r graddfeydd oedran canlynol:

Graddfa Oedran	Cyfanswm
0 – 2	20
3 – 4	8
5 – 7	16
8 – 10	22
11 – 14	27
15 - 17	25

Mae ar hyn o bryd 9 plentyn o blith sipswn teithiol yn mynychu ysgolion Sir Fynwy, 7 mewn ysgolion cynradd a 2 mewn ysgolion uwchradd.

Aelwydydd

O'r 38,233 o aelwydydd a feddiennir yn Sir Fynwy, mae 39.9% â chartrefi a berchenogir yn llwyr, 33.7% â morgais, mewn cydberchnogaeth, 4.2% yn cael eu rhentu gan y Cyngor, 9.7% yn dai rhent cymdeithasol, 10.8% yn cael eu rhentu'n breifat ac mae 1.4% yn byw'n ddi-rent.

Mae nifer o ddatblygiadau tai ychwanegol sy'n cael eu cynllunio ledled Sir Fynwy, fel a ganlyn:

Ardal	Maint y Safle	2015/16	2016/17	2017/18
Y Fenni	575	80	94	69
Trefynwy	565	2	89	99
Cil-y-coed	1,052	9	27	60
Cas-gwent	567	44	0	32
Brynbuga a Rhaglan	75	0	3	7
CYFANSWM	2,824	135	213	267

O 30^{ain} Mehefin 2015, roedd 2,100 o bobl yn ddi-waith rhwng 16-64 oed yn byw yn Sir Fynwy; mae hyn yn is o lawer na'r cyfartaledd Cymru Gyfan. Rhagwelir y bydd y ffigur hwn yn gostwng ymhellach eto i 1,300 yn 2016.

	Cyfanswm	Canran
Nifer yr aelwydydd â phlant dibynnol	10,629	27.8%
Nifer yr aelwydydd heb waith â phlant dibynnol	994	2.6%
Nifer y teuluoedd unig riant â phlant dibynnol	2,057	5.4%

Er gwaethaf y ffaith bod Sir Fynwy'n ardal gymharol gyfoethog o'i chymharu â gweddill Cymru, mae 12.9% o blant yn dal yn byw mewn teuluoedd incwm isel yn Sir Fynwy. 1,500 o blant dibynnol yn byw mewn aelwydydd sy'n hawlio Lwfans Chwilio am Waith, 180 o blant dibynnol yn byw mewn aelwydydd sy'n hawlio Credyd Treth Gwaith, 270 o blant dibynnol yn byw mewn aelwydydd sy'n hawlio Credyd Treth Plant a 15,115 o blant dibynnol yn byw mewn aelwydydd sy'n hawlio Budd-dal Plant.

Cefndir Ethnig a Chrefydd

Yn ôl Cyfrifiad 2011, mae ethnigrwydd a chrefyddau poblogaeth Sir Fynwy fel a ganlyn:

Cefndir Ethnig	%	Cefndir Crefyddol	%
Gwyn (Prydeinig, Gwyddelig neu Arall)	98%	Cristnogol	62.5%
Grwpiau Cymysg/Aml ethnig	0.8%	Bwdiaidd	0.3%
Du neu Ddu Brydeinig	0.1%	Mwslimaidd	0.3%
Asiaidd neu Asiaidd Brydeinig	0.8%	Hindŵaidd	0.2%
Tsieineaidd	0.2%	Iddewig	0.1%
Arabaid	0.1%	Sikhiaidd	0.1%
		Arall	0.4%
		Dim	28.5%
		Heb Nodi Crefydd	7.7%

Dim ond 52.1% o'r boblogaeth sy'n nodi eu bod yn Gymry.

Proffil Iaith Gymraeg

Bu cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n byw yn Sir Fynwy, fodd bynnag, mae canran y rheiny sydd heb wybodaeth o'r iaith Gymraeg bron 13% yn uwch na chyfartaledd Cymru Gyfan.

Iaith Gymraeg	%
Siarad, darllen ac ysgrifennu	7.2%
Siarad a darllen	0.7%
Siarad yn unig	1.8%
Yn deall Cymraeg Llafar	2.5%
Cyfuniadau Eraill	1.9%
Dim gwybodaeth	86%

Yn ôl Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Sir Fynwy (CSCA), mae 6% o ddisgyblion blwyddyn 2 yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg, sy'n gynydd o 1.8% ers 2011 a rhagwelir y bydd y ffigur hwn yn parhau i dyfu. Mae amrywiaeth yn y ganran o siaradwyr Cymraeg ar draws y sir, y gellid ei ddisgrifio'n rhannol gan leoliad ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg Sir Fynwy, gan fod peth tystiolaeth o glystyru yn ardaloedd y Fenni a Chil-y-coed (*Cynllun Iaith Gymraeg Sir Fynwy 2012 – 2015*).

5. Trosolwg – Mathau, Gwasanaethau a Llefydd Gofal Plant

5.1 Nifer y Darparwyr Gofal Plant & Mathau o Wasanaethau (Wedi'u Cofrestru a Heb eu Cofrestru/ Wedi'u Cymeradwyo)

Mathau o Ofal Plant	Wedi'u cofrestru	Heb eu cofrestru/Wedi'u cymeradwyo)	Gwasanaethau Gofal Plant a Gynigir	Wedi'u cofrestru	Heb eu cofrestru/Wedi'u cymeradwyo
Gwarchodwr Plant	46	0	Gofal dydd llawn drwy gydol y flwyddyn	42	0
			Gofal hanner dydd drwy gydol y flwyddyn	31	0
			Cyn Ysgol	34	0
			Ar ôl ysgol	40	0
			Amlapio	34	0
			Darpariaeth adeg Gwyliau	38	0
			Arall	0	0
Gofal Dydd Llawn	23	0	Meithrinfa ddydd llawn drwy gydol y flwyddyn	20	0
			Meithrinfa hanner dydd (am)	13	0
			Meithrinfa hanner dydd (pm)	12	0
			Cyn ysgol	3	0
			Cylch chwarae bore/ Cylch Meithrin	3	0
			Cylch chwarae prynhawn/ Cylch Meithrin	2	0
			Ar ôl ysgol	2	0
			Amlapio	14	0
			Cinio	12	0
			Darpariaeth adeg Gwyliau	12	0
			Crèche	1	0
			Arall	0	0
			Sesiynau Gofal Dydd	17	1
Cylch chwarae prynhawn/ Cylch Meithrin	7	0			
Amlapio	1	0			
Cinio	3	1			
Arall	2	0			

Crèche	1	0	Yn gweithredu Dydd Llawn	0	0
			Yn gweithredu yn y Boreau	1	0
			Yn gweithredu yn y Prynhawniau	1	0
			Darpariaeth adeg Gwyliau	0	0
			Arall	0	0
Gofal y Tu Allan i Oriau Ysgol	11	7	Cyn ysgol	3	0
			Ar ôl ysgol	11	7
			Darpariaeth adeg Gwyliau	2	1
			Sesiynau cynllun chwarae	0	0
			Arall	0	0
Darpariaeth Chwarae Mynediad Agored	0	8	Cyn ysgol	0	0
			Ar ôl ysgol	0	0
			Darpariaeth adeg Gwyliau	0	8
			Sesiynau cynllun chwarae	0	0
			Arall	0	0
Mamaeth	0	0	Gofal dydd llawn drwy gydol y flwyddyn	0	0
			Gofal hanner dydd drwy gydol y flwyddyn	0	0
			Cyn ysgol	0	0
			Ar ôl ysgol	0	0
			Amlapio	0	0
			Darpariaeth yn ystod gwyliau ysgol	0	0
			Arall	0	0
CYFANSWM	99	16			

Dosbarthiad Daeryddol y Darparwyr a'r Gwasanaethau Gofal Plant a Ddarperir (Wedi'u Cofrestru a Heb eu Cofrestru)

- Mae gwasgariad rhesymol o warchodwyr plant ar draws yr ardaloedd, gyda'r nifer uchaf yng Nghil-y-coed a'r nifer isaf yn Nhrefynwy a Rhaglan. Mae'r rhan fwyaf o warchodwyr plant yn cynnig ystod llawn o wasanaethau gan gynnwys gofal dydd llawn, gofal hanner dydd, gofal cyn ac ar ôl ysgol, gofal amlapio a gofal yn ystod gwyliau.
- Mae darpariaeth gyson o ofal dydd llawn ar draws y pum ardal, er mai yng Nghas-gwent mae'r nifer isaf. Mae oddeutu hanner y darparwyr gofal dydd llawn yn cynnig ystod o wasanaethau, mae eraill yn nodi eu bod yn cynnig meithrinfa ddydd llawn, fodd bynnag, ymddengys hyn o ganlyniad i ddarparwyr yn camddeall y cwestiwn a ofynnwyd gan ein bod yn gwybod bod y lleoliadau hyn yn cynnig ystod o sesiynau. Mae dros hanner y darparwyr gofal dydd llawn yn cynnig gofal yn ystod gwyliau.
- Mae'r rhan fwyaf o ofal sesiynol yn Sir Fynwy wedi'u cofrestru, dim ond un lleoliad yng Nghas-gwent sydd heb ei gofrestru ac maent ar hyn o bryd yn mynd drwy'r broses gofrestru. Mae mwy o ofal sesiynol yn Y Fenni nag mewn un ardal arall ac nid oes gofal sesiynol o gwbl yn Nhrefynwy a Rhaglan. Mae'r holl ddarparwyr gofal sesiynol yn cynnig cylchoedd chwarae boreol, mae saith darparwr hefyd yn cynnig sesiynau cylch chwarae prynhawnol. Yn ychwanegol, mae nifer fechan o ddarparwyr yn cynnig gofal amser cinio neu ofal amlapio.
- Dim ond un crèche cofrestredig sy'n gweithredu yn Y Fenni ond mae'n benodol ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol. Nid ydym yn ymwybodol o'r un crèche arall, naill ai wedi'i gofrestru neu heb ei gofrestru, yn gweithredu yn Sir Fynwy.
- Dim ond 61% o ddarparwyr gofal plant y tu allan i oriau ysgol yn Sir Fynwy sydd wedi'u cofrestru, cyfyngir y lleoliadau sy'n weddill i ddarpariaeth o 2 awr. Mae'r rhan fwyaf (39%) o'r ddarpariaeth y tu allan i oriau ysgol ar gael yn ardal Y Fenni, er bod darpariaeth ym mhob ardal yn Sir Fynwy. Mae nifer gyfyngedig o glybiau cyn ysgol o ganlyniad i'r ffaith bod mwyafrif yr ysgolion cynradd yn Sir Fynwy â chlybiau brechwast sy'n rhad ac am ddim. Ychydig iawn o glybiau adeg gwyliau sydd ac maent ar gael yn unig yn Y Fenni ac yng Nghas-gwent.
- Nid oes darpariaeth chwarae mynediad agored yn Sir Fynwy ac mae'r ddarpariaeth heb ei chofrestru ar gael yn unig yn ystod gwyliau ysgol. Fe'i gwasgerir ar draws y pedair prif dref ond ar hyn o bryd nid oes darpariaeth ar gael yn ardal Trefynwy a Rhaglan.

Nid oes gennym unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â mamaethau'n gweithio o fewn Sir Fynwy, er bod un rhiant yng Nghil-y-coed ac un yn Nhrefynwy wedi cofnodi drwy'r arolwg rhieni eu bod ar hyn o bryd yn defnyddio mamaeth ar gyfer gofal plant.

5.2. Llefydd Gofal Plant – Cyflenwad a Galw yn ôl Math o Ofal Plant

Darpariaeth wedi'i Chofrestru – Yn Ystod Tymor

Math o Ofal Plant	Llefydd yn ôl Cofrestrriad	Yn Ystod Tymor				
		Mwyafswm y Llefydd Gofal Plant Ar Gael yn Ddyddiol	Nifer y Plant yn Defnyddio'r Gwasanaeth	Nifer y Llefydd Gwag	Nifer y Plant ar y Rhestr Aros	Nifer y Llefydd Gofal Plant sy'n Ofynnol
Gwarchodwr Plant	336	336	355	67	11	280
Meithrinfa Ddydd Llawn	917	917	990	375	43	885
Gofal Dydd Sesiynol	384	534	441	215	20	361
Crèche	9	18	36	10	0	7
Gofal y Tu Allan i Oriau Ysgol	478	592	793	382	486	402
Chwarae Mynediad Agored	0	0	0	0	0	0
Mamaeth	0	0	0	0	0	0

Darpariaeth heb ei Chofrestru – Yn Ystod Tymor

Math o Ofal Plant	Yn Ystod Tymor				
	Mwyafswm y Llefydd Gofal Plant Ar Gael yn Ddyddiol	Nifer y Plant yn Defnyddio'r Gwasanaeth	Nifer y Llefydd Gwag	Nifer y Plant ar y Rhestr Aros	Nifer y Llefydd Gofal Plant sy'n Ofynnol
Gwarchodwr Plant	0	0	0	0	0
Meithrinfa Ddydd Llawn	0	0	0	0	0
Gofal Dydd Sesiynol	36	22	60	0	24
Crèche	0	0	0	0	0
Gofal y Tu Allan i Oriau Ysgol	144	56	45	0	135
Chwarae Mynediad Agored	0	0	0	0	0
Mamaeth	0	0	0	0	0

Darpariaeth wedi'i Chofrestru – Gwyliau Ysgol

Math o Ofal Plant	Llefydd yn ôl Cofrestriad	Gwyliau Ysgol				
		Yn Ystod Tymor				
Gwarchodwr Plant	298	Mwyafswm y Llefydd Gofal Plant Ar Gael yn Ddyddiol	Nifer y Plant yn Defnyddio'r Gwasanaeth	Nifer y Llefydd Gwag	Nifer y Plant ar y Rhestr Aros	Nifer y Llefydd Gofal Plant sy'n Ofynnol
Meithrinfa Ddydd Llawn	403	403	349	54	8	357
Gofal Dydd Sesiynol	44	44	54	3	0	41
Crèche	0	0	0	0	0	0
Gofal y Tu Allan i Oriau Ysgol	166	166	103	68	0	98
Chwarae Mynediad Agored	0	0	0	0	0	0
Mamaeth	0	0	0	0	0	0

Darpariaeth heb ei Chofrestru – Gwyliau Ysgol

Math o Ofal Plant	Gwyliau Ysgol				
	Mwyafswm y Llefydd Gofal Plant Ar Gael yn Ddyddiol	Nifer y Plant yn Defnyddio'r Gwasanaeth	Nifer y Llefydd Gwag	Nifer y Plant ar y Rhestr Aros	Nifer y Llefydd Gofal Plant sy'n Ofynnol
Gwarchodwr Plant	0	0	0	0	0
Meithrinfa Ddydd Llawn	0	0	0	0	0
Gofal Dydd Sesiynol	0	0	0	0	0
Crèche	0	0	0	0	0
Gofal y Tu Allan i Oriau Ysgol	26	38	10	0	24
Chwarae Mynediad Agored	400	536	0	0	400
Mamaeth	0	0	0	0	0

Dosbarthiad Daearyddol Llefydd Gofal Plant yn ôl Math o Ofal Plant - Cyflenwad a Galw – Yn Ystod Tymor

- Ar y cyfan ymddengys fod 20% o lefydd cofrestredig yn wag yn ystod tymor ysgol, fodd bynnag, rhennir llefydd yn aml gan fwy nag un plentyn ar wahanol ddyddiau neu ar wahanol amserau yn y dydd. Mae nifer sylweddol fwy o lefydd ar gael gyda gwarchodwyr plant yn ardal Cil-y-coed, fodd bynnag mae'r galw am lefydd yn uwch yn ogystal.
- Mae darpariaeth gyson dda o ofal dydd llawn ar draws yr holl ardaloedd yn Sir Fynwy. Er mai Cas-gwent sydd â'r nifer isaf o leoliadau gofal dydd llawn, hi sydd â'r nifer uchaf o lefydd gofal plant a hi sydd â'r nifer uchaf o lefydd gofal dydd llawn y manteisir arnynt.
- Mae bron hanner yr holl lefydd gofal sesiynol y manteisir arnynt yn ardal Y Fenni, fodd bynnag y cyflenwad o lefydd hefyd yw'r uchaf yn yr ardal hon a hwy ar hyn o bryd sydd â'r nifer uchaf o lefydd gwag.
- Lleolir yr unig crèche yn Y Fenni ac mae 9 lle ar gael dros 7 sesiwn; defnyddir 72% o'r llefydd a lenwir ar adegau neilltuol.
- Mae nifer fawr o blant yn cyrchu llefydd gofal plant y tu allan i oriau ysgol ond mae hefyd nifer sylweddol uchel o lefydd gwag, sy'n awgrymu bod y rhan fwyaf o blant yn mynychu ond am 1 neu 2 sesiwn yr wythnos. Mae'r capasiti uchaf ar gyfer llefydd y tu allan i oriau ysgol yn ardal Y Fenni ond mae data'r SASS yn awgrymu bod galw am y llefydd hyn. Mae'r nifer isaf o lefydd ar gael yng Nghil-y-coed ac ym Mrynbuga a Rhaglan a dim ond ychydig iawn o lefydd gwag a gofnodir yn yr ardaloedd hyn.
- Nid oes darpariaeth chwarae mynediad agored ar gael yn ystod tymor ysgol.

Dosbarthiad Daeryddol Llefydd Gofal Plant yn ôl Math o Ofal Plant - Cyflenwad a Galw – Gwyliau Ysgol

- Mae llai o blant yn defnyddio gwarchodwyr plant yn ystod gwyliau ysgol nag yn ystod tymor ysgol ac mae nifer gymharol uchel o lefydd gwag (24%). Fel gyda darpariaeth adeg tymor ysgol, mae'r cyflenwad a'r galw am lefydd gwarchodwr plant yn uwch yn ardal Cil-y-coed nag mewn unrhyw ardal arall yn Sir Fynwy yn ystod gwyliau ysgol.
- Mae gofal dydd llawn ychwanegol ar gael ym mhob ardal yn ystod gwyliau ysgol ond ni fanteisir ar y gofal hwnnw yng Nghil-y-coed ac ychydig iawn yn manteisio yn Nhrefynwy a hynny yn ystod gwyliau haf yn unig..
- Nid oes gofal sesiynol ar gael yn Y Fenni neu Frynbuga a Rhaglan yn ystod gwyliau ysgol a dim ond nifer gyfyngedig o lefydd sydd yn y tair ardal arall.
- Nid oes llefydd crèche ar gael yn ystod gwyliau ysgol.
- Nid oes gofal gwyliau ar gael yn Nhrefynwy neu Gil-y-coed ac mae ar gael yn unig yn ystod gwyliau haf yng Nghas-gwent a Brynbuga a Rhaglan. Mae gofal adeg gwyliau ar gael yn Y Fenni yn ystod y rhan fwyaf o wyliau ysgol ond mae'r galw am lefydd yn isel.
- Roedd nifer dda wedi mynychu'r ddarpariaeth chwarae mynediad agored, gyda'r nifer isaf yn manteisio ar y llefydd yn Y Fenni a'r nifer uchaf yn manteisio ar y llefydd yng Nghil-y-coed.

6. Cyflenwad Gofal Plant

6.1. Gwarchodwr Plant

6.1.1. Dadansoddiad o'r Cyflenwad o Ddarpariaeth Gofal Plant

Dim ond 46 o warchodwyr plant a gwblhaodd eu datganiadau SASS ac felly mae'r wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar eu hymatebion; fodd bynnag, mae gennym gyfanswm o 63 o warchodwyr plant cofrestredig ac rydym yn ymwybodol o nifer o rai eraill sydd ar hyn o bryd yn mynd drwy'r broses gofrestru.

- Ystod y gwasanaethau a ddarperir – Mae nifer gyson o warchodwyr plant ar draws yr holl ardaloedd yn Sir Fynwy ond mae nifer sylweddol fwy o warchodwyr plant yn ardal Cil-y-coed. Mae'r rhan fwyaf o warchodwyr plant yn darparu ystod eang o wasanaethau gan gynnwys gofal dydd llawn, gofal amlapio a gofal adeg gwyliau.
- Nifer a math o lefydd plant a lenwir (amser llawn, rhan amser, adegau neilltuol) – Mae mwy na 45% o'r llefydd wedi'u llenwi adeg tymor a 42% wedi'u llenwi adeg gwyliau yn ardal Cil-y-coed. Mae'r holl lefydd a ddefnyddir adeg tymor ar sail rhan amser neu ar adegau neilltuol; fodd bynnag, manteisir ar lefydd llawn amser adeg gwyliau ysgol. Defnyddir pob math o ofal plant ym mhob ardal yn Sir Fynwy adeg tymor ac ym mhob wythnos o wyliau ysgol.
- Nifer y llefydd a lenwir gan blant sydd ag anghenion addysgol arbennig neu sydd angen gofal arbenigol o ganlyniad i anabledd – Mae 12 plentyn ag anghenion addysgol arbennig neu anabledd ar hyn o bryd yn cael gofal gan warchodwyr plant; gwasgerir y rhain ar draws holl ardaloedd Sir Fynwy. Mae gan y mwyafrif mawr (83%) o'r plant hyn anawsterau llafar, iaith a chyfathrebu.
- Nifer y llefydd cyfrwng Cymraeg a lenwir – Ar hyn o bryd nid oes gwarchodwyr plant Cymraeg eu hiaith yn Sir Fynwy a dim ond 22% yn unig o'r gwarchodwyr plant a gofnododd fod ganddynt ychydig o elfennau dwyieithog.
- Llefydd gwag a rhestri aros - Mae llefydd gwag gyda gwarchodwyr plant yn holl ardaloedd Sir Fynwy adeg tymor ysgol, er bod y ffigur hwn yn ymddangos yn sylweddol uwch yn ardal Brynbuga a Rhaglan. Ni chofnodir unrhyw lefydd gwag yn ardal Y Fenni adeg gwyliau ysgol. Cofnodir y rhan fwyaf o lefydd ar restr aros yn ardal Brynbuga a Rhaglan; fodd bynnag, o ystyried mai hon yw'r ardal â'r rhan fwyaf o lefydd gwag, rwy'n credu bod rhai gwarchodwyr plant wedi camddeall y cwestiwn

ac wedi cynnwys plant sydd wedi llogi lle ar gyfer cychwyn ar ddyddiad hwyrach ac nid oes galw am y lle eto.

- Amserau agor ac amrywiaeth yn hyd y sesiynau - mae'r rhan fwyaf o warchodwyr plant yn cynnig ystod o amserau sesiynau ac mae gofal plant ar gael ym mhob ardal yn Sir Fynwy rhwng 8 y bore a 6 yr hwyr, o ddydd Llun i ddydd Gwener. Mae pob ardal â gofal plant cyfyngedig ar gael rhwng 7 y bore ac 8 y bore bob diwrnod o'r wythnos, ac eithrio'r Fenni lle nad oes ond un gwarchodwr plant yn darparu'r gofal hwn am 3 diwrnod yr wythnos a Brynbuga a Rhaglan lle darperir y gofal hwn o ddydd Llun i ddydd Iau yn unig. Mae gofal plant cyfyngedig hefyd ar gael ar ôl 6 yr hwyr yng Nghil-y-coed, Cas-gwent a Threfynwy. Dim ond un gwarchodwr plant yng Nghil-y-coed sy'n darparu gofal plant ar benwythnosau ac nid oes un gwarchodwr plant ar hyn o bryd yn gweithredu ar ôl 10 yr hwyr. Mae'r ystod hon o amserau agor a hyd sesiynau'r un fath yn ystod yr holl wyliau ysgol ac eithrio wythnos y Nadolig lle mae gwasanaeth cyfyngedig ar gael yn Y Fenni, Cas-gwent a Threfynwy a Rhaglan a dim un ddarpariaeth yng Nghil-y-coed a Threfynwy.
- Ystod oedran plant – Mae gwarchodwyr plant ym mhob ardal o Sir Fynwy sy'n darparu ar gyfer plant rhwng 0 ac 11 oed. Yn ôl data'r SASS dim ond un gwarchodwr plant sydd yn Nghil-y-coed yn darparu ar gyfer plant 12 – 14 oed ac nid oes gwarchodwyr plant o gwbl yn darparu ar gyfer plant 15 – 17 oed. Yn ystod tymor, dim ond 14% o gyfanswm y plant y darperir ar eu cyfer gan warchodwyr plant sydd dan 2 oed, mae 41% rhwng 2 a 4 oed ac mae 45% yn 5 oed a throsodd; mae'r sefyllfa'n debyg adeg gwyliau ysgol. Yng Nghil-y-coed mae nifer sylweddol uchel o blant 5 oed a throsodd yn derbyn gofal gan warchodwyr plant yn ystod tymor ac yn ystod gwyliau ysgol.
- Ystod prisiau - Mae'n anodd dadansoddi'r prisiau gan fod rhai gwarchodwyr plant wedi cwblhau'u prisiau yn ôl yr awr tra ymddengys fod eraill wedi cwblhau'u prisiau yn ôl y dydd, heb awgrym o'r nifer o oriau a gynhwysir yn y pris. Ymddengys fod y pris yn ôl yr awr yn amrywio rhwng £3 a £6 yr awr, gyda'r ddarpariaeth rataf yng Nghil-y-coed a Brynbuga a Rhaglan, a'r ddarpariaeth ddrutaf yn Y Fenni. Mae'r raddfa ddyddiol am ofal dydd llawn yn amrywio o £30 y dydd i £45 y dydd, a'r pris dyddiol mwyaf cyffredin yn £40. Yn seiliedig ar y raddfa ddyddiol, Cil-y-coed sy'n cynnig y gofal plant rhataf a thuedda'r Fenni i gynnig y gofal drutaf. Mae'r gost am hanner diwrnod yn amrywio o £15 i £24 ond nid oes awgrym o hyd y sesiwn hon, felly mae'n anodd cymharu costau. Dim ond un gwarchodwr plant sydd yn Sir Fynwy sydd wedi nodi eu bod yn codi pris ychwanegol am gewynnau, byrbrydau, pryddau a chludiant; fodd bynnag, ni chwblhaodd y rhan fwyaf o'r gwarchodwyr plant yr adran hon o'r holiadur. Mae 28% o warchodwyr plant yn cynnig rhyw fath o ostyngiad i frawd neu chwaer; mae mwy na hanner y rhain yn ardal Cil-y-coed.

6.1.2. Crynodeb o'r Prif Gryfderau a'r Gwendidau

Cryfderau:

- Mae nifer dda o warchodwyr plant ledled Sir Fynwy a darperir ystod eang o wasanaethau gan y gwarchodwyr hyn.
- Mae gwarchodwyr plant yn fodlon ac yn gallu darparu gofal plant ar gyfer plant gydag anghenion addysgol arbennig neu anabledd.
- Mae teuluoedd yn gyffredinol yn defnyddio'r ddarpariaeth hon yn rhan amser neu'n gwneud trefniadau achlysurol, felly mae'n ddigon hyblyg i gwrdd ag anghenion newidiol teuluoedd unigol.
- Mae llefydd gwag ym mhob ardal o Sir Fynwy yn ystod y tymor ac yn y rhan fwyaf o lefydd yn ystod gwyliau ysgol.
- Mae gwasgariad eang o oedrannau yn derbyn gofal gan warchodwyr plant ledled Sir Fynwy. Er nad oes unrhyw warchodwyr plant ar hyn o bryd yn gofalu am blant rhwng 15 – 17 oed a dim ond un yn cofnodi eu bod yn gofalu am blentyn 12-14 oed, mae hyn o ganlyniad i ddiffyg galw gan fod y rhan fwyaf o warchodwyr plant yn fodlon ac yn gallu darparu ar gyfer plant hŷn a dim ond un yn cofnodi eu bod yn gofalu am blentyn 12 – 14 mlwydd oed; mae hyn o ganlyniad i ddiffyg galw gan fod y rhan fwyaf o warchodwyr plant yn fodlon ac yn gallu darparu ar gyfer plant hŷn, os oes angen.
- Mae gwarchodwyr plant yn cyflenwi swm sylweddol o ofal ar ôl ysgol ar gyfer plant 5 oed a throsodd, yn enwedig yn ardal Cil-y-coed.
- Mae'r ddarpariaeth gofal plant rataf ar gael yn ardal Cil-y-coed ac maent hefyd yn dueddol o gynnig gostyngiad i frodyr a chwiorydd yn yr ardal hon.

Gwendidau:

- Tuedda gwarchodwyr plant i fod yn weithlu dros dro ac mae'r gwarchodwyr yn newid yn eithaf cyson gan achosi'r angen i recriwtio gwarchodwyr newydd yr un mor gyson.
- Nid oes gwarchodwyr plant Cymraeg eu hiaith yn Sir Fynwy a dim ond 22% sydd ag ychydig elfennau dwyieithog i'w darpariaeth.
- Ar hyn o bryd nid oes llefydd gwag wedi'u cofnodi yn Y Fenni yn ystod gwyliau ysgol.
- Yn ôl data'r SASS, dim ond darpariaeth gyfyngedig sydd ar gael yn ystod oriau arbennig, megis cyn 8 y bore, ar ôl 6 yr hwyr ac ar benwythnosau a dim darpariaeth ar ôl 10 yr hwyr; fodd bynnag, rydym yn ymwybodol bod rhai gwarchodwyr plant yn darparu'r gwasanaethau hyn i deuluoedd yn achlysurol.
- Mae'r ddarpariaeth gofal plant ddrutaf yn ardal Y Fenni a hon yw'r unig ardal lle mae gwarchodwyr plant yn gosod prisiau ychwanegol am gewynnau, byrbrydau ac yn y blaen.

6.2 Meithrinfa Ddydd Llawn

Dadansoddiad o Ddarpariaeth Gofal Plant

Roedd nifer o'n meithrinfeydd mwy o faint yn mynd drwy newid perchnogaeth yn ystod yr haf ac felly'n methu â chwblhau'u datganiad SASS; a dyna paham mae'r data'n is nag y dylai fod. Rydym hefyd wedi cael dwy feithrinfa ddydd yn agor y tymor hwn, felly nid yw'u data hwy wedi'u cynnwys ychwaith.

- Ystod y gwasanaethau a ddarperir - Mae mwyafrif y lleoliadau a gofrestrir fel rhai gofal dydd llawn yn cynnig llefydd dydd llawn, ac eithrio un yng Nghil-y-coed a dau yn Nhrefynwy. Yn ôl y data, mae bron hanner y lleoliadau heb ddarparu gofal hanner dydd; fodd bynnag, mae hyn o ganlyniad i gamddeall yr holiadur, gan ein bod yn gwybod bod ein holl leoliadau yn cymryd plant am hanner diwrnod os na chaiff eu llefydd dydd llawn eu llanw. Ychydig iawn o leoliadau sy'n hawlio cynnig llefydd cyn ac ar ôl ysgol, tra bod mwy na hanner yn darparu gwasanaeth amlapio, cinio a gofal adeg gwyliau. Mae'r patrwm hwn o ddarpariaeth yn debyg yn holl ardaloedd Sir Fynwy.
- Nifer a math o lefydd plant a lenwir (llawn amser, rhan amser ac achlysurol) – Mae 63% o'r llefydd gofal plant a lanwyd yn ystod tymor yn rhai meithrin dydd llawn ac fe ddefnyddir y rhan fwyaf o'r rhain yn rhan amser ac eithrio yn Y Fenni lle, yn ôl data'r SASS, llenwir bron y cyfan o'r llefydd yn rhan amser. Yn ôl y data, ni fanteisir ar lefydd adeg gwyliau yng Nghas-gwent a dim ond nifer fechan o lefydd a gymerir yn Nhrefynwy ac fe gaiff y rheiny'u defnyddio'n unig yn ystod gwyliau'r haf.
- Nifer y llefydd a lenwir gan blant ag anghenion addysgol arbennig neu sydd angen gofal arbenigol o ganlyniad i anabledd. Mae 32 o lefydd yn cael eu llanw gan blant sydd ag anabledd neu anghenion addysgol arbennig, o'r rhain mae 14 o blant mewn llefydd gaiff eu hariannu neu lefydd rhan amser; gwasgerir y plant hyn ar draws pob ardal yn Sir Fynwy.
- Nifer y llefydd cyfrwng Cymraeg a lenwir – Nid oes llefydd cyfrwng Cymraeg ar gael, mae'r holl lefydd gofal dydd llawn yn Sir Fynwy yn Saesneg gyda rhai elfennau dwyieithog.
- Llefydd gwag a rhestri aros - Mae lleoliadau yng Nghil-y-coed yn cofnodi'r nifer uchaf o lefydd dydd llawn sy'n wag, tra nad oes yng Nghas-gwent ond ychydig o lefydd dydd llawn yn wag, ond mae ganddynt nifer uchel o lefydd hanner dydd, yn y boreau ynghyd â'r prynhawniau. Y lleoliadau ym Mrynbuga a Rhaglan yw'r unig rai i gofnodi llefydd gwag ar gyfer llefydd cinio. Mae'r nifer ar y rhestri aros yn ystod tymor yn isel iawn, gyda'r nifer uchaf yng Nghil-y-coed a dim wedi'u cofnodi ar gyfer Cas-gwent. Yn ystod gwyliau ysgol, dim ond un lleoliad yng Nghil-y-coed sy'n cofnodi rhestr aros a dim ond yn ystod

gwyliau'r haf.

- Amserau agor ac ystod o hydoedd sesiynau - Mae gan bob ardal ystod o sesiynau ar gael yn ystod y tymor a gwyliau ysgol, mae'r rhain yn bennaf yn gweithredu rhwng 8 y bore a 6 yr hwyr neu rywle rhwng y ddau. Mae rhai lleoliadau sy'n gweithredu o 7.30 y bore ac un lleoliad yng Nghil-y-coed sy'n gweithredu ar ôl 6 yr hwyr ond dim ond tan 6.30 yr hwyr. Nid oes un lleoliad yn cynnig gofal dros nos neu ofal penwythnos. Mae lleoliadau ym mhob ardal sy'n gweithredu yn ystod 12 wythnos gwyliau ysgol, ac eithrio wythnos y Nadolig.
- Ystod oedran plant - Mae mwy na hanner darparwyr gofal dydd llawn yn gallu cymryd plant 0 - 7 oed, gyda bron pob un ohonynt yn gallu cymryd plant rhwng 2 flwydd a 4 blwydd oed. Dim ond un lleoliad yn Nhrefynwy, Cil-y-coed a Brynbuga a Rhaglan all gymryd plant rhwng 8 - 11 oed, a dim un lleoliad yn Y Fenni neu Gas-gwent. Yn ystod y tymor, mae plant yn mynychu pob grŵp oedran hyd at 4 oed ym mhob un o'r ardaloedd ac yng ngrŵp oedran 5 - 7 ar gyfer yr holl ardaloedd ac eithrio Cas-gwent. Mae gan Drefynwy a Chil-y-coed blant 8 - 11 oed yn mynychu ar hyn o bryd. Yn ystod gwyliau ysgol, mae ystod debyg o oedrannau yn mynychu yn Y Fenni, Cil-y-coed a Chas-gwent; dim ond plant o 4 i 11 oed sy'n mynychu yn ystod gwyliau ysgol yn Nhrefynwy ac ym Mrynbuga a Rhaglan mae'r holl blant rhwng 5 ac 11 oed.
- Ystod prisiau - Yn ôl data'r SASS, mae pris gofal dydd llawn yn amrywio rhwng £3 a £4.20 yr awr ac am hanner diwrnod neu lai mae'r pris yn amrywio o £2.80 yr awr i £5.25 yr awr, gyda chost gofal cinio yn amrywio rhwng £1 a £4.50. Ymddengys bod rhai lleoliadau wedi rhoi cost y sesiwn yn hytrach na chost yr awr ond nid oes awgrym ynghylch hyd y sesiwn, felly nid yw'n bosibl casglu cost yr awr o'r wybodaeth hon. Dim ond un lleoliad yn Nhrefynwy sy'n codi tâl am gewynnau, prydau, byrbrydau a chludiant gyda lleoliad arall ym Mrynbuga a Rhaglan yn codi tâl am brydau a byrbrydau. Mae 10 lleoliad yn cynnig rhyw fath o ostyngiad i frodyr a chwiorydd ond nid yw un o'r lleoliadau hyn yn ardal Cas-gwent.

6.2.2. Crynodeb o'r Prif Gryfderau a'r Gwendidau

Cryfderau

- Mae ystod dda o wasanaethau yn cael eu darparu gan leoliadau gofal dydd llawn ac mae mwy na hanner yn cynnig gofal amlapio, clybiau cinio a gofal adeg gwyliau.
- Meithrinfa ddydd llawn yw'r gwasanaeth a ddefnyddir yn fwyaf cyffredin ac yn Y Fenni manteisir ar y ddarpariaeth hon yn bennaf yn llawn amser.
- Mae'r ddarpariaeth ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig neu anabledd yn dda ac mae llawer o'r plant hyn yn derbyn cymorth wedi'i ariannu ar gyfer addysg gynnar.
- Mae'r niferoedd ar restr aros yn nisel ac mae ar hyn o bryd lefydd gwag ym mhob ardal yn Sir Fynwy yn ystod y tymor ac adeg gwyliau ysgol.
- Mae ystod eang o hydoedd sesiynau ar gael ym mhob ardal ac mae sawl lleoliad yn cynnig darpariaeth rhwng 7.30 ac 8 y bore.
- Mae gan bob ardal ofal dydd llawn ar gael yn ystod 12 wythnos o'r gwyliau ysgol, a'r unig eithriad yw wythnos y Nadolig.
- Mae prisiau'n amrywio'n rhyfeddol, fodd bynnag tuedda i fod yn rhatach na gwarchodwyr plant a dim ond un lleoliad sydd â chostau ychwanegol.

Gwendidau:

- Nid oes darparwyr gofal dydd llawn cyfrwng Cymraeg yn Sir Fynwy.
- Dim ond ychydig iawn o ddarparwyr gofal sy'n cynnig gofal cyn ysgol neu ofal amlapio; mae hyn yn rhannol o ganlyniad i'r ystod oedran y plant maent yn gofalu amdanynt gan fod llawer ohonynt ar hyn o bryd wedi'u cofrestru'n unig ar gyfer plant hyd at 5 mlwydd oed.
- Mae'r nifer sy'n manteisio ar y ddarpariaeth yn ystod gwyliau ysgol yn wael a lle manteisir ar y ddarpariaeth tuedda i fod yn rhan amser neu'n achlysurol, sefyllfa nad yw'n gymorth i leoliadau gynig gwasanaeth cynaliadwy.
- Ychydig iawn o lefydd gwag a gofnodir ar gyfer meithrinfa ddydd llawn yn ardal Cas-gwent, fodd bynnag, ni chwblhaodd dwy o'r meithrinfeydd mwyaf eu datganiad SASS felly ni chynhwysir eu data o fewn y dadansoddiad hwn.
- Nid oes yna ddarparwyr gofal dydd llawn sy'n cynnig gofal dros nos neu dros y penwythnos a dim ond un sy'n darparu gofal plant ar ôl 6 yr hwyr.
- Mae darpariaeth ar gyfer plant 0 - 7 mlwydd oed ym mhob ardal yn Sir Fynwy ond mae'r ddarpariaeth ar gyfer plant 8 - 11 oed yn eithriadol o gyfyngedig.

6.3 Gofal Dydd Sesiynol

6.3.1. Dadansoddiad o Ddarpariaeth Gofal Plant

Mae'r gofal sesiynol a restrwyd yn ein ADdGP blaenorol nawr wedi cofrestru fel gofal dydd llawn. Mae traean o'n darparwyr gofal sesiynol presennol yn lleoliadau Dechrau'n Deg ac mae hanner o'r rhain yn cymryd plant Dechrau'n Deg yn unig..

- Ystod y gwasanaethau a ddarperir – Nid oes gofal sesiynol ar gael ym Mrynbuga a Rhaglan a dim ond cylch chwarae boreol sydd ar gael yng Nghas-gwent. Dim ond chwe lleoliad sy'n cynnig llefydd cylchoedd chwarae yn y bore a'r prynhawn ac mae pump o'r rhain yn ardal Y Fenni. Dim ond dau lleoliad yn Y Fenni ac un yn Nhrefynwy sy'n darparu clwb cinio ac mae un yn cynnig gofal amlapio. Mae Trefynwy, Cil-y-coed, a Chas-gwent yn cynnig gofal yn ystod gwyliau ysgol ond nid yw'r ddarpariaeth hon ar gael yn Y Fenni neu Frynbuga a Rhaglan.
- Nifer a math o lefydd plant a lenwir (llawn amser, rhan amser ac achlysurol) - Mae llawer mwy yn manteisio ar lefydd mewn cylchoedd chwarae / cylchoedd meithrin boreol nac mewn sesiynau prynhawn. Adeg tymor mae mwy o lefydd yn cael eu llenwi yn rhan amser (65%) na llawn amser ym mhob ardal a dim ond un lle yn Y Fenni a ddefnyddir yn achlysurol. Yn ystod gwyliau ysgol mae'r rhan fwyaf o lefydd yn cael eu llenwi llawn amser.
- Nifer y llefydd a lenwir gan blant ag anghenion addysgol arbennig neu sydd angen gofal arbenigol o ganlyniad i anabledd. – Mae 37 o blant ag anghenion addysgol arbennig neu anabledd yn mynychu gofal sesiynol, 18 ohonynt mewn llefydd Addysg Gynnar a ariennir. Mae dwy ran o dair o'r plant hyn yn ardal Y Fenni ac nid oes un yn ardal Trefynwy.
- Nifer y llefydd cyfrwng Cymraeg a lenwir – Mae un lleoliad cyfrwng Cymraeg yn ardal Y Fenni yn cynnig 26 o lefydd ar gyfer plant 2 – 4 oed. Mae 39 o blant yn defnyddio'r lleoliad hwn a chofnodwyd un lle gwag. Maent yn darparu llefydd cylch meithrin yn y bore yn unig, fodd bynnag maent hefyd yn cynnig clwb cinio ac amlapio o gwmpas meithrin yr ysgol Gymraeg. Mae'r holl ddarparwyr gofal sesiynol sy'n weddill yn y Saesneg gyda rhai elfennau dwyieithog.
- Llefydd gwag a rhestri aros – Mae nifer gymharol uchel o lefydd gwag yn ardaloedd Y Fenni a Chas-gwent ac ychydig iawn yn Nhrefynwy, er ein bod yn tybied bod llawer o'r llefydd gwag hyn yn yr un lle ar wahanol ddiwrnodau. Dim ond Y Fenni sy'n cofnodi rhestr aros, fodd bynnag, rydym yn tybied bod llawer o'r rhain yn blant anghymwys yn aros i fod yn ddigon hen i gychwyn gan fod digon o lefydd gwag yn yr ardal.

- Amserau agor ac ystod o hydoedd sesiynau - Mae bron pob sesiwn fore'n gweithredu o ddydd Llun i ddydd Gwener, ar wahân i Gas-gwent lle mae un lleoliad nad yw'n gweithredu ar ddydd Gwener. Mae'r sesiynau'n gyffredinol yn amrywio rhwng 2 a 3 awr o hyd, yn cychwyn rhwng 9 y bore a 9.30 y bore ac yn gorffen rhwng 11.30 y bore a 12.30 y prynhawn. Tuedda sesiynau'r prynhawn i agor am ychydig ddiwrnodau'r wythnos ac mae bron pob un o'r sesiynau prynhawn yn rhedeg am 2.5 awr 15 munud. Ymddengys sesiynau cinio i fod rhwng 45 munud ac 1.5 awr o hyd. Mae pob darpariaeth gwyliau'n gweithredu am 2.5 awr ac mae ar gael am 2 neu 3 wythnos yng ngwyliau'r haf.
- Ystod oedran plant – At ei gilydd, mae cydbwysedd cymharol rhwng plant 2,3,a 4 oed sy'n mynychu lleoliadau gofal sesiynol. Yn Nhrefynwy a Chil-y-coed mae mwy o blant 2 oed nac unrhyw grŵp oedran arall ond mae hyn o ganlyniad i'r ffaith bod 1 o'r 3 lleoliad ym mhob un o'r ardaloedd hyn yn lleoliad Dechrau'n Deg yn unig. Yn Y Fenni mae canran uchel o blant 3 oed ac yng Nghas-gwent mae mwy o blant 4 oed nac unrhyw grŵp oedran arall, gan fod 40% o'r lleoliadau hyn yn Ddarparwyr Addysg Gynnar.
- Ystod prisiau - Yn ôl data'r SASS, mae'r pris am sesiwn foreol yn amrywio o 41 ceiniog i £9.50 gyda hanner y rhai a gwblhaodd y cwestiwn hwn yn cofnodi eu bod yn £8 neu fwy am sesiwn. Mae sesiynau cylchoedd chwarae prynhawn yn llawer rhatach na hyn, yn amrywio rhwng 41 ceiniog a £3 ac mae cost sesiwn amlapio'n £11. Mae sesiynau cinio'n amrywio rhwng £1.50 a £3.80. Mae un lleoliad yng Nghas-gwent yn gosod tâl ychwanegol am gewynnau, byrbrydau, prydau a chlundiant ac mae un lleoliad yn Y Fenni â thaliadau eraill ond nid yw'n nodi beth yw'r rhain; heblaw hynny, mae darparwyr gofal sesiynol yn cofnodi nad oes ganddynt unrhyw daliadau ychwanegol. Mae un lleoliad yng Nghas-gwent yn cynnig gostyngiad o 10% am yr 2^{il} blentyn ac mae un lleoliad yng Nghil-y-coed yn cynnig 50% o ostyngiad ar gyfer gefail.

6.3.2. Crynodeb o'r Prif Gryfderau a'r Gwendidau

Cryfderau:

- Mae traean o'n darparwyr gofal sesiynol ar hyn o bryd yn ddarparwyr Dechrau'n Deg ac maent yn cynnig llefydd gofal plant rhad ac am ddim.
- Mae'r ddarpariaeth ar gyfer plant blant ag anghenion addysgol arbennig neu anabledd yn dda ac mae llawer o'r plant hyn yn derbyn cefnogaeth gaiff ei hariannu gan yr Awdurdod Lleol.
- Mae llefydd gwag digonol ar gyfer gofal sesiynol ym mhob ardal yn Sir Fynwy, er nad oes darparwyr gofal sesiynol ym Mrynbuga a Rhaglan, rydym yn ymwybodol o lefydd gwag ar gael gyda darparwyr gofal dydd llawn yn yr ardal hon.

- Mae ystod o daliadau ond tuedda i fod yn rhatach yr awr na mathau eraill o ofal plant, yn enwedig llefydd yn y prynhawn.

Gwendidau:

- Ar hyn o bryd nid oes gofal sesiynol ar gael yn ardal Brynbuga a Rhaglan a dim ond un yng Nghas-gwent, fodd bynnag, mae hyn yn bennaf o ganlyniad i'r ffaith bod nifer o ddarparwyr gofal plant wedi estyn eu gwasanaethau ac maent nawr wedi cofrestru fel rhai gofal dydd llawn ond maent yn parhau i gynnig gofal sesiynol.
- Mae ystod y gwasanaethau sydd ar gael yn gyfyngedig ac mae cyfradd uchel yn cynnig llefydd mewn cylch chwarae boreol yn unig.
- Nid yw pob lleoliad yn gweithredu o ddydd Lun i ddydd Gwener ac mae cylchoedd chwarae prynhawn yn tueddu i fod ar gael am 2 i 3 diwrnod yr wythnos yn unig.
- Dim ond un lleoliad cyfrwng Cymraeg sydd yn Y Fenni ac mae ganddynt un lle gwag yn unig ar hyn o bryd; nid ydynt yn gallu cynnig gofal plant yn ystod y prynhawniau. Nid oes gofal plant cyfrwng Cymraeg ar gael yng ngweddill Sir Fynwy.
- Caiff mwyafrif y llefydd eu llenwi'n rhan amser yn unig ac mae nifer y rhai'n manteisio ar lefydd prynhawn mewn cylchoedd chwarae'n arbennig o isel.

6.4 Crèche

6.4.1. Dadansoddiad o Ddarpariaeth Gofal Plant

Dim ond un crèche cofrestredig sy'n gweithredu yn Sir Fynwy ac nid yw'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn ymwybodol o unrhyw crèche arall heb ei gofrestru.

Mae'r crèche hwn wedi'i leoli yn Y Fenni ac mae wedi'i gofrestru ar gyfer 9 plentyn rhwng 0 a 5 mlwydd oed. Ar hyn o bryd mae ganddynt 36 o blant yn defnyddio'r ddarpariaeth ac mae 86% o'r rhain rhwng 0 - 3 oed. Mae'n crèche anabled, felly mae'r holl blant sy'n mynychu ag anghenion addysgol arbennig neu anabled. Mae'r lleoliad yn disgrifio'i hun fel un Seisnig gydag ychydig elfennau dwyieithog. Maent ar agor am sesiwn 2.5 awr yn y boreau am bedwar diwrnod yr wythnos a sesiwn brynhawn 3 awr 3 diwrnod yr wythnos. Nid ydynt yn gweithredu yn ystod gwyliau ysgol nac ar benwythnosau. Mae ganddynt 10 lle gwag ac nid oes ganddynt restr aros. Mae'r crèche hwn ar gael drwy atgyfeiriad ac nid oes tâl, nid oes unrhyw daliadau ychwanegol ychwaith am gewynnau neu fyrbrydau ac nid yw gostyngiad am frawd neu chwaer yn ofynnol.

6.4.2. Crynodeb o'r Prif Gryfderau a'r Gwendidau

Mae angen am fwy o gyfleusterau crèche sy'n cynnig ystod o wasanaethau ym mhob ardal yn Sir Fynwy; dyma wendid arwyddocaol.

6.5 Gofal y Tu Allan i Oriau Ysgol

6.5.1. Dadansoddiad o Ddarpariaeth Gofal Plant

Nid yw 39% o leoliadau gofal y tu allan i oriau ysgol yn Sir Fynwy wedi'u cofrestru felly nid oeddent wedi llenwi'r datganiad SASS. Rydym wedi ceisio casglu data perthnasol o'r lleoliadau hyn ond nid yw'r cyfan wedi darparu ar ein cyfer ddata presenoldeb llefydd gwag, rhestri aros ac yn y blaen, felly mae'r ffigurau a gynhwysir o fewn y dadansoddiad hwn yn is na'r ffigurau gwirioneddol.

- Ystod y gwasanaethau a ddarperir - Mae'r holl leoliadau gofal y tu allan i oriau ysgol sydd wedi'u cofrestru a heb eu cofrestru yn darparu gofal ar ôl ysgol ac maent wedi'u gwasgaru ar draws Sir Fynwy, gyda'r mwyaf yn gweithredu yn ardal Y Fenni. Mae dau o'r lleoliadau yn Y Fenni ac un ym Mrynbuga a Rhaglan hefyd yn darparu gofal cyn ysgol, gan eu bod wedi'u lleoli mewn ysgolion lle nad oes clwb brecwast rhad ac am ddim. Mae un lleoliad yn Y Fenni yn cynnig gofal gwyliau yn ystod gwyliau'r haf yn unig. Nid oes gofal gwyliau yn Nhrefynwy, Cil-y-coed neu Frynbuga a Rhaglan.
- Nifer a math o lefydd plant a lenwir (llawn amser, rhan amser ac achlysurol) - nid oes data' penodol yn ymwneud â phresenoldeb yn y ddau glwb brecwast yn y Fenni, fodd bynnag rydym yn ymwybodol bod nifer dda'n mynychu'r clybiau hyn, fel mae'r clwb brecwast yn Nhrefynwy a Rhaglan; tuedda presenoldeb i fod yn llawn amser. Mae'r presenoldeb mewn clybiau ar ôl ysgol hefyd yn dda ac mae'r rhan fwyaf o'r plant yn mynychu'n llawn amser, ar wahân i'r clwb yn Y Fenni lle tuedda presenoldeb i fod yn rhan amser; fodd bynnag, mae data'n gyfyngedig gan fod nifer o'r clybiau yn yr ardal hon heb eu cofrestru a heb ddarparu data presenoldeb. Nid ymddengys bod llawer yn mynychu clybiau gwyliau ac fe'u defnyddir yn bennaf yn rhan amser.
- Nifer y llefydd a lenwir gan blant ag anghenion addysgol arbennig neu sydd angen gofal arbenigol o ganlyniad i anabledd. – Cofnodir bod 13 o blant ag anghenion addysgol arbennig neu anabledd yn mynychu lleoliadau gofal y tu allan i oriau ysgol ac maent wedi'u gwasgaru ar draws pob ardal ar wahân i Drefynwy, fodd bynnag, rydym yn ymwybodol bod pum plentyn pellach yn mynychu lleoliad yn Nhrefynwy sydd ar hyn o bryd yn derbyn cyllid dwylo ychwanegol i gefnogi plant ag

anghenion ychwanegol.

- Nifer y llefydd cyfrwng Cymraeg a lenwir – Mae Clwb Ar Ôl Ysgol yn cynnig llefydd cyfrwng Cymraeg yn yr ysgol Gymraeg yn Y Fenni ac maent yn llawn gyda rhestr aros, fodd bynnag, nid ydynt yn rhedeg i'w capasiti llawn o ganlyniad i broblemau gyda dod o hyd i staff addas sy'n gymwys yn siarad Cymraeg. Mae 33% o leoliadau pellach â rhai elfennau dwyieithog ond mae gweddill y lleoliadau gofal y tu allan i oriau ysgol yn disgrifio'u hunain fel rhai Saesneg yn unig.
- Llefydd gwag a rhestri aros – Yn ôl y data, nid oes llefydd gwag mewn clybiau cyn ysgol ond nifer sylweddol uchel o lefydd gwag mewn clybiau ar ôl ysgol yn Nhrefynwy a Chas-gwent. Mae rhestr aros fechan mewn un lleoliad yng Nghil-y-coed a nifer sylweddol ar y rhestr aros ar gyfer yr un lleoliad ym Mrynbuga a Rhaglan. Cofnodir bod mwy na 35% o lefydd gofal gwyliau yn wag ac nid oes rhestri aros yn ystod gwyliau ysgol.
- Amserau agor ac ystod o hydoedd sesiynau - Mae clybiau cyn ysgol yn gweithredu rhwng 8 y bore a 9 y bore a chlybiau ar ôl ysgol yn gweithredu'n bennaf o 3 y prynhawn i 5.30, er bod lleoliadau heb eu cofrestru'n gorffen yn gynt gan eu bod wedi'u cyfyngu i ddwy awr o hyd. Mae'r rhan fwyaf o leoliadau ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener ond mae ychydig leoliadau ar agor o ddydd Llun i ddydd Iau yn unig. Mae gofal gwyliau yn Y Fenni yn gweithredu o ddydd Llun i ddydd Gwener o 8.30 y bore i 6 yr hwyr ac mae'r gofal ar gael yn ystod gwyliau haf ac yn ystod gwyliau hanner tymor. Mae gofal gwyliau yng Nghas-gwent yn rhedeg o ddydd Llun i ddydd Gwener o 8.30 y bore i 5.30 y prynhawn ond mae ar gael yn unig yn ystod gwyliau'r haf.
- Ystod oedran plant - Mae ychydig o blant 3 oed yn derbyn gofal y tu allan i oriau ysgol yn Sir Fynwy yn ystod y tymor a nifer fechan o blant 4 oed; ta waeth, mae 46% o'r defnyddwyr o 5 i 7 oed ac mae 51% o 8 - 11 oed. Yn ystod gwyliau ysgol, cofnodir mai dim ond un plentyn 3 oed a thri phlentyn 4 oed sy'n defnyddio gofal gwyliau yn Y Fenni ac mae gweddill y defnyddwyr wedi'u gwasgaru rhwng grwpiau 5 - 7 ac 8 - 11 oed. Mae bron 66% o'r defnyddwyr yng Nghas-gwent o 8 i 11 oed ac nid oes un o dan 5 oed.
- Ystod prisiau – Mae'r holl glybiau cyn ysgol yn codi tâl o £2.75 y sesiwn ac mae tâl clybiau ar ôl ysgol yn amrywio o £3.36 yr awr i £10 y sesiwn. Dim ond dau glwb gwyliau a ddarparodd gostau ac mae'r ddau yn codi £20 y dydd. Mae chwe lleoliad ar draws pedair ardal yn Sir Fynwy'n cynnig rhyw fath o ostyngiad ar gyfer brawd neu chwaer, yn amrywio o ostyngiad o 25 ceiniog neu £2 am ail blentyn i ostyngiad o 20% neu ostyngiad o 15% am drydydd plentyn. Nid oes un o'r clybiau gofal plant y tu allan i oriau ysgol yng Nghas-gwent yn cynnig gostyngiad i frawd neu chwaer. Ni chofnodir taliadau ychwanegol gan glybiau gofal plant y tu allan i oriau ysgol.

6.5.2. Crynodeb o'r Prif Gryfderau a'r Gwendidau

Cryfderau:

- Mae darpariaeth dda o ofal plant ar ôl ysgol ar gael ar draws Sir Fynwy yn arbennig yn ardal Y Fenni.
- Mae clwb gwyliau yn Y Fenni sy'n gweithredu am 9 wythnos o'r gwyliau ysgol.
- Mae presenoldeb mewn clybiau cyn ysgol ac ar ôl ysgol yn dda ac, yn ôl data'r SASS, mae nifer o deuluoedd yn defnyddio'r gwasanaeth hwn yn llawn amser.
- Mae cost gofal y tu allan i oriau ysgol, yn enwedig gofal gwyliau, yn gymharol rad o gymharu â mathau eraill o ofal plant ac ni chofnodir unrhyw daliadau ychwanegol.
- Cefnogir plant ag anghenion addysgol arbennig neu anabledd i'w galluogi i gael mynediad i ofal plant y tu allan i oriau ysgol.

Gwendidau:

- Mae 39% o leoliadau gofal plant y tu allan i oriau ysgol yn Sir Fynwy heb eu cofrestru felly maent wedi'u cyfyngu i fwyafswm o 2 awr o hyd ac nid yw rhieni'n gallu hawlio'r elfen gofal plant o Gredyd Treth Gwaith tuag at gost y ddarpariaeth hon..
- Mae angen mwy o ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg.
- Ychydig iawn o glybiau cyn ysgol sydd yn Sir Fynwy, fodd bynnag, mae hyn o ganlyniad i'r ffaith bod gan fwyafrif yr ysgolion cynradd yn Sir Fynwy glybiau brechwast rhad ac am ddim ar y safle, felly nid oes galw am y ddarpariaeth ychwanegol hon.
- Nid oes llefydd digonol mewn clybiau ar ôl amser ysgol ym Mrynbuga a Rhaglan ac un lleoliad yng Nghil-y-coed, gan nad oes ganddynt ar hyn o bryd lefydd gwag a rhestr aros.
- Nid oes clybiau gwyliau yn Nhrefynwy, Cil-y-coed neu Frynbuga a Rhaglan a darpariaeth gyfyngedig sydd yng Nghas-gwent yn ystod gwyliau'r haf yn unig.
- Nid oes llawer yn mynychu'r clybiau gwyliau, gyda mwy na 35% o'r llefydd yn wag, a thueddir eu defnyddio'n rhan amser yn unig.
- Ychydig iawn o blant o dan 5 mlwydd oed sy'n manteisio ar ofal plant y tu allan i oriau ysgol, yn enwedig gofal gwyliau.

6.6 Darpariaeth Chwarae Mynediad Agored

6.6.1. Dadansoddiad o Gyflenwad Darpariaeth Gofal Plant

Nid oes darpariaeth chwarae mynediad agored gofrestrdig yn Sir Fynwy a dim un ar gael ar hyn o bryd yn ystod y tymor.

- Ystod y gwasanaethau a ddarperir – Roedd darpariaeth chwarae mynediad agored ar gael mewn wyth lleoliad yn ystod gwyliau'r haf, dau yr un yn Y Fenni, Trefynwy, Cil-y-coed a Chas-gwent.; nid oes darpariaeth chwarae mynediad agored ym Mrynbuga a Rhaglan.
- Nifer a math o lefydd plant a lenwir (llawn amser, rhan amser ac achlysurol) - Mynychodd cyfanswm o 536 o blant ddarpariaeth chwarae mynediad agored yn ystod gwyliau'r haf, yn amrywio o 97 yn Y Fenni i 205 yng Nghil-y-coed. Llanwyd y rhan fwyaf o'r llefydd yn achlysurol.
- Nifer y llefydd a lenwir gan blant ag anghenion addysgol arbennig neu sydd angen gofal arbenigol o ganlyniad i anabledd – Derbyniodd 35 o blant ag anghenion addysgol arbennig neu anabledd gymorth1:1 i'w galluogi i fynychu sesiynau chwarae mynediad agored dros y pedair ardal. Cefnogwyd 5 plentyn gydag anghenion cymhleth uwch i fynychu darpariaeth arbenigol mewn awdurdod cyfagos.
- Nifer y llefydd cyfrwng Cymraeg a lenwir - Nid oes llefydd cyfrwng Cymraeg ar gael mewn lleoliadau chwarae mynediad agored, maent i gyd yn disgrifio'u hunain fel lleoliadau Saesneg yn unig.
- Llefydd gwag a rhestri aros – Nid oes gwybodaeth ar gael parthed llefydd gwag a rhestri aros.
- Amserau agor ac ystod o hydoedd sesiynau – Gweithredai'r holl ddarpariaeth chwarae mynediad agored o ddydd Llun i ddydd Gwener ac roedd ar agor o 10 y bore i 12 y bore i hanner dydd ac o 1 y prynhawn i 3 y prynhawn bob dydd.
- Ystod oedran plant – roedd holl ddarpariaeth y chwarae mynediad agored ar gael i blant 5 ac 11 oed. Nid oeddem yn gallu cael dadansoddiad o union oedran y plant a fynychai'r sesiynau.
- Ystod prisiau – Nid oedd tâl i fynychu'r ddarpariaeth chwarae mynediad agored.

6.6.2. Crynodeb o'r Prif Gryfderau a'r Gwendidau

Cryfderau:

- Roedd nifer wedi mynychu'r ddarpariaeth chwarae mynediad agored a gynigiwyd yn ystod gwyliau ysgol a bwriedir cynnig darpariaeth debyg yn ystod gwyliau ysgol yn y dyfodol.
- Mae cefnogaeth i alluogi plant ag anghenion addysgol arbennig neu anabledd i fynychu darpariaeth chwarae mynediad agored.
- Mae'r ddarpariaeth hon yn rhad ac am ddim.

Gwendidau

- Nid oes darpariaeth chwarae mynediad agored yn ystod y tymor ac nid yw'r ddarpariaeth gwyliau ysgol wedi'i chofrestru gydag AGGCC, felly mae hyd y sesiynau wedi'u cyfyngu i 2 awr.
- Nid oes darpariaeth chwarae mynediad agored yn ardal Brynbuga a Rhaglan.
- Nid oes darpariaeth chwarae mynediad agored cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog yn Sir Fynwy.
- Mae darpariaeth chwarae mynediad agored ar gael i blant 5 – 11 oed yn unig.

6.7 Mamaeth

6.7.1. Dadansoddiad o Gyflenwad Darpariaeth Gofal Plant

Ar hyn o bryd nid oes mamaethau wedi'u cofrestru yn Sir Fynwy a dim un yn hysbysebu drwy'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, felly nid oeddem yn gallu casglu unrhyw ddata'n ymwneud â mamaethau.

6.7.2. Crynodeb o'r Prif Gryfderau a'r Gwendidau

Mae angen mwy o wybodaeth parthed argaeledd mamaethau o fewn Sir Fynwy ac annog mamaethau sydd eisoes yno i gofrestru drwy gyfrwng y cynllun cymeradwyaeth gwirfoddol.

7. Deall Anghenion Rhieni/Gofalwyr

7.1 Trosolwg o'r Ymgynghoriad

Statws	Nifer	Canran
Rhiant/ Gofalwr mewn gwaith (heb ddisgwyl babi)	142	73.6%
Rhiant/ Gofalwr mewn addysg neu hyfforddiant (heb ddisgwyl babi)	4	2.1%
Rhiant/ Gofalwr yn chwilio am waith (heb ddisgwyl babi)	8	4.1%
Rhiant/ Gofalwr yn chwilio am addysg neu hyfforddiant (heb ddisgwyl babi)	1	0.5%
Yn disgwyl neu ar seibiant mamolaeth / tadolaeth gyda'r plentyn <u>cyntaf</u>	5	2.6%
Yn mabwysiadu'r plentyn <u>cyntaf</u>	0	0%
Rhiant/ Gofalwr yn disgwyl neu ar seibiant mamolaeth / tadolaeth <u>gyda phlant ychwanegol</u>	0	0%
Yn mabwysiadu neu ar seibiant mabwysiadu <u>gyda phlant ychwanegol</u>	1	0.5%
Rhiant/ Gofalwr heb fod mewn gwaith	30	15.5%
Rhiant/ Gofalwr heb fod mewn addysg neu hyfforddiant	2	1.0%

Ymatebwyr yn ôl Incwm Cartref Cyfartalog Blynyddol

Incwm Cartref Cyfartalog Blynyddol	Nifer	Canran
£0-£10,000	10	5.2%
£10,001-£20,000	23	11.9%
£20,001-£30,000	23	11.9%
£30,001-£40,000	36	18.7%
£40,001-£50,000	23	11.9%
£50,001-£60,000	13	6.7%
£60,001-£70,000	19	9.8%
£70,000+ y flwyddyn	18	9.3%
Yn well ganddynt beidio â dweud	28	14.5%

Ymatebwyr yn ôl Grŵp Ethnig

Grŵp Ethnig	Nifer	Canran
Gwyn	188	97.4%
Grwpiau Cymysg/ Aml Ethnig	0	0%
Asiaidd/ Asiaidd Prydeinig	1	0.5%
Du/ Affricanaidd/ Caribïaidd/ Du Prydeinig	0	0%
Grŵp Ethnig Arall	1	0.5%
Heb ei nodi	3	1.6%

Iaith yr Ymatebwyr (Y Brif Iaith a Siaredir Gartref)

Iaith	Nifer	Canran
Cymraeg yn unig	0	0%
Saesneg yn unig	171	88.6%
Dwyieithog	15	7.8%
Ieithoedd eraill	4	2.1%
Heb ei nodi	3	1.6%

Plant yr Ymatebwyr yn ôl Grŵp Oedran

Oedran	Nifer
Dan 12 mis	21
12-18 mis	20
19-23 mis	5
2 flwydd oed	32
3 blwydd oed	40
4 blwydd oed	47
5-7 mlwydd oed	92
8-11 mlwydd oed	78
12-14 mlwydd oed	28
15-17 mlwydd oed	12

Ymatebwyr â Phlant sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig neu Anabledd

Anghenion Addysgol / Anabledd	Nifer
Lleferydd ac iaith	2
Dysgu penodol (dyslecsia)	2
Anawsterau Clyw	0
Anawsterau Dysgu	0
Anawsterau Gweledol	1
Anawsterau emosiynol ac ymddygiadol	0
Corfforol	0
Cyflwr meddygol	1
Arall (noder) - awtistiaeth	2
Arall (noder) – iechyd meddwl	1
Oes (heb ei nodi)	2

7.2. Defnydd Cyfredol Gofal Plant

7.2.1. Dadansoddiad o Ddefnydd Cyfredol Darpariaeth Gofal Plant

Dim ond 193 o ymatebion a dderbyniwyd i arolwg y rhieni ac nid oedd yr holl ymatebwyr wedi ateb pob cwestiwn; felly mae'r wybodaeth y gellir ei derbyn o hyn yn gyfyngedig ac nid yw o angenrheidrwydd yn gynrychioladol o'r farchnad gofal plant yn ei chyfanrwydd.

- Ystod y gwasanaethau a ddarperir – Derbyniwyd mwy o ymatebion o ardal Cas-gwent nag unrhyw ardal arall yn Sir Fynwy. Roedd pob math o ofal plant yn cael ei ddefnyddio ym mhob ardal ar wahân i chwarae mynediad agored, a oedd yn cael ei ddefnyddio'n unig gan deuluoedd ym Mrynbuga, a mamaethau a gofrestrwyd drwy'r cynllun cymeradwyo gwirfoddol, lle nad oes rhai o gwbl yn Sir Fynwy. Y math arbennig o ofal plant a ddefnyddiwyd amlaf oedd gofal dydd llawn, yn cael ei ddilyn yn glos gan warchodwyr plant. Roedd yr ystod o wasanaethau a ddefnyddid ar gyfer pob math o ofal plant yn eang; roedd yr ymatebion uchaf am ofal cyn ysgol a ddarparwyd gan warchodwyr plant yn Nhrefynwy a Rhaglan a theulu a/neu ffrindiau yn ardal Cas-gwent.
- Nifer a math o lefydd plant a lenwir (llawn amser, rhan amser ac achlysurol) – Ym mhob math o ofal plant, manteisiwyd ar y rhan fwyaf o lefydd yn rhan amser, gyda dim ond 2 deulu'n defnyddio gwarchodwyr plant llawn amser, 7 teulu'n defnyddio gofal dydd llawn amser ac 1 teulu yn Nhrefynwy'n defnyddio teulu/frindiau'n llawn amser. Nid yw nifer y llefydd gofal plant a ddefnyddir yn cyfateb i'r wybodaeth gynharach a gyflenwyd gan nad yw pob rhiant wedi cwblhau'r cwestiwn hwn, felly nid yw'n ddata dibynadwy.
- Nifer y llefydd a lenwir gan blant ag anghenion addysgol arbennig neu sydd angen gofal arbenigol o ganlyniad i anabledd – Roedd sawl ymatebydd oedd â phlant ag anghenion addysgol arbennig neu anabledd ond nid oedd un o'r rhain yn defnyddio gofal plant ar gyfer y plant hyn.
- Nifer y llefydd a ddefnyddir yn ôl categori iaith - Cafodd 90% o'r ddarpariaeth gofal plant a ddefnyddiwyd o fewn yr awdurdod lleol yn ystod tymor ei disgrifio fel darpariaeth Saesneg gyda rhai elfennau dwyieithog, roedd 7% yn y Gymraeg a 3% yn Saesneg yn unig. Roedd pob darpariaeth gofal plant y cafwyd mynediad iddi yn ystod gwyliau ysgol neu allan o'r sir yn Saesneg gyda rhai elfennau dwyieithog.

- Ystod oedran y plant yn defnyddio/heb ddefnyddio gofal plant – Roedd ystod oedran y plant yn defnyddio gwarchodwyr plant yn eithaf gwastad rhwng dan 12 mis i 8 - 11 mlwydd oed, gyda dim ond un teulu yn Y Fenni'n defnyddio gwarchodwr plant ar gyfer plentyn 12 – 14 oed a dim ar gyfer plant dros 15 oed. Mae'r plant sy'n mynychu gofal dydd llawn rhwng dan 12 mis i 5 – 7 mlwydd oed, er bod y mwyafrif mawr yn 2-3 blwydd oed. Mae defnyddwyr gofal sesiynol rhwng 2 a 4 oed a'r grŵp oedran moddol ar gyfer gofal sesiynol yw 5-7 oed. Nid oes patrwm penodol i ystod oedran plant nad ydynt yn defnyddio gofal plant; er, yn ôl y data, nid oedd plant rhwng 19 mis a 3 blwydd oed nad oeddent wedi defnyddio gofal plant.
- Y rhesymau dros ddefnyddio/dros beidio â defnyddio gofal plant - Yr unig resymau a roddir am ddefnyddio gofal plant oedd ar gyfer gwaith a chwilio am waith. Y rheswm mwyaf poblogaidd dros beidio â defnyddio gofal plant oedd rhesymau teulu neu ffrindiau'n edrych ar ôl eu plant; ymateb poblogaidd arall oedd eu bod hwy neu'u cymar yn rhieni aros gartref. Hawliai un ymatebydd o bob ardal bod gofal plant yn rhy ddrud a hawliodd 3 ymatebydd nad oedd gofal plant ar gael ar yr adegau roedd ei angen arnynt. Cynhwysai rhesymau eraill a roddwyd dros beidio â defnyddio gofal plant fod y plant yn ddigon hen i edrych ar ôl eu hunain, bod rhiant bellach ar gyfnod mamolaeth a bod rhiant yn gweithio oriau ysgol ac felly heb angen gofal plant.
- Hygyrchedd/ argaeledd a fforddiadwyedd darpariaeth gofal plant - Y prif ymateb mewn perthynas â gwelliannau i ddarpariaeth gofal plant oedd ei wneud yn fwy fforddiadwy. Roedd gofal plant ar gael cyn 8 y bore ac ar ôl 6 yr hwyr yn ymateb cyffredin arall, hyn enwedig yn ardal Cas-gwent; fodd bynnag, dim ond 2 ymatebydd wnaeth gais am ofal dros nos a byddai 6 ymatebydd yn hoffi gofal penwythnos. Nid oedd argaeledd gofal plant cyfrwng Cymraeg yn broblem mewn gwirionedd yn Y Fenni ac ychydig iawn o ymatebwyr a awgrymodd bod angen gwelliannau ynghylch lleoliad gofal plant, er y byddai llawer o ymatebwyr yn ardal Y Fenni a Chas-gwent yn hoffi i ofal plant gael ei leoli yn nes at y cartref. Awgrymwyd argaeledd gofal plant ar wahanol adegau yn y dydd yn ystod gwyliau ysgol gan ymatebwyr ym mhob ardal yn Sir Fynwy.
- Safbwyntiau rhieni ar y gofal plant a gynigir - Roedd 94% o ymatebwyr yn fodlon ag ansawdd eu gofal plant adeg tymor, tra mai dim ond 67% oedd yn fodlon ag ansawdd eu gofal plant yn ystod gwyliau ysgol, anghytunodd 54% o ymatebwyr fod dewis da o ofal plant a chytunodd 47% nad oedd gofal plant ar gael ar yr amser roedd ei angen arnynt. Fodd bynnag, cytunai 72% o ymatebwyr fod gofal plant wedi'i leoli'n dda. Anghytunai 81% nad oedd gofal plant ar gael ar gyfer oedran y plentyn, cytunai 76% bod y gofal plant yn darparu ar gyfer anghenion eu plant ac anghytunai 77% fod eu gofal plant yn annibynadwy. Teimlai 77% fod gofal plant yn rhy ddrud ac roedd yn well gan 31% ddefnyddio'r teulu neu ffrindiau ond dim ond 34% fyddai'n hoffi cynyddu'u horiau a chytunai 33% fod diffyg gofal plant yn rhwystr i gyflogaeth. Cytunai 68% o ymatebwyr eu bod yn gwybod ble i fynd i ddod o hyd i wybodaeth ar ofal plant, tra gwyddai 38% yn unig lle i gael gwybodaeth yn ymwneud â chymorth ariannol ar gyfer gofal plant. Anghytunai 35% fod digon o ofal cyfrwng Cymraeg ar

gael, gyda mwyafrif yr ymatebwyr yn dweud nad oeddent yn gwybod ond cytunai 72% fod digon o ofal plant ar gael yn eu dewis iaith. Mae'r safbwyntiau ar y gofal plant a gynigir yn tueddu i fod yn gyson ar draws yr holl ardaloedd yn Sir Fynwy; nid oedd materion amlwg yn benodol i un ardal ddaearyddol.

7.2.2. Crynodeb o'r Prif Gryfderau a'r Gwendidau

Cryfderau:

- Mae'r ddarpariaeth gofal plant o ansawdd dda, yn enwedig y gofal plant sydd ar gael adeg tymor.
- Lleolir darpariaeth gofal plant mewn mannau da ac mae'n darparu ar gyfer anghenion y rhan fwyaf o blant.
- Mae gofal plant yn gyffredinol yn ddibynadwy.
- Mae'r rhan fwyaf o ymatebwyr yn gwybod lle i fynd i gyrchu gwybodaeth ar ofal plant.

Gwendidau:

- Mae'r raddfa ymateb wael i'r arolwg rhieni yn golygu ei bod yn eithriadol anodd gwneud dyfarniadau pendant.
- Teimlai mwy na hanner yr ymatebwyr fod y dewis o'r gofal plant sydd ar gael yn gyfyngedig.
- Fforddiadwyedd yw'r ymateb mwyafrif cyffredin parthed y gwelliannau sy'n ofynnol a defnyddir cost gofal plant fel esgus dros beidio â defnyddio gofal plant.
- Cytunai bron hanner yr ymatebwyr nad oes gofal plant ar gael ar yr adeg maent ei angen a dywedwyd hyn fel rheswm dros beidio â defnyddio gofal plant. Byddai ymatebwyr yn hoffi petai mwy o ofal plant ar gael cyn 8 y bore ac ar ôl 6 yr hwyr ac ar wahanol amserau yn ystod gwyliau ysgol, gyda lleiafrif bychan iawn angen gofal dros nos neu dros y penwythnos.
- Nid oes gofal plant digonol ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Llai na hanner yr ymatebwyr sy'n gwybod lle i gyrchu gwybodaeth ynghylch cymorth ariannol ar gyfer gofal plant.

7.3. Galw am Ddarpariaeth Gofal Plant

7.3.1. Dadansoddiad o'r Ddarpariaeth Gofal Plant

- Ystod y gwasanaethau a ddarperir - Dim ond 11 o ymatebwyr ddywedodd fod arnynt eisiau llefydd gofal plant ychwanegol; roedd angen gwarchodwr plant ar 2 yn Y Fenni ac ym Mrynbuga a Rhaglan; roedd angen gofal dydd llawn ar 3 ym

Mrynbuga a Rhaglan ac 1 yn Y Fenni, roedd angen gofal sesiynol ar 1 yng Nghas-gwent, roedd angen 1 crèche yn Nhrefynwy, roedd angen gofal amlapio ar 1 yng Nghas-gwent ac roedd angen gofal y tu allan i oriau ysgol ar 2 ym Mrynbuga a Rhaglan. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr oedd angen gwarchodwr plant neu ofal dydd llawn eisiau meithrinfa ddydd llawn, roedd y rheiny oedd angen gofal sesiynol angen llefydd cylchoedd chwarae yn y boreau ac roedd nifer y rheiny eisiau gofal y tu allan i oriau ysgol angen gofal cyn ysgol. Roedd angen darpariaeth chwarae mynediad agored yn ystod gwyliau ysgol ym Mrynbuga a Rhaglan.

- Nifer a math o lefydd plant a lenwir (llawn amser, rhan amser ac achlysurol – Roedd angen 14% o lefydd llawn amser i blant dan 18 mis oed, 76% o lefydd rhan amser a 10% o lefydd achlysurol i blant 8 oed a throsodd.
- Nifer y llefydd a lenwir gan blant ag anghenion addysgol arbennig neu sydd angen gofal arbenigol o ganlyniad i anabledd – Nid oedd angen llefydd ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig neu anabledd.
- Nifer y llefydd a ddefnyddir yn ôl categori iaith – O'r 11 o ymatebwyr oedd angen gofal plant ychwanegol, gwnaeth 6 gais am ddarpariaeth Saesneg, gwnaeth 4 gais am ddarpariaeth Saesneg gyda rhai elfennau dwyieithog a gwnaeth 1 gais am iaith arall ond heb nodi iaith benodol.
- Amserau gofal plant, gan gynnwys y nifer yn cynnig oriau gofal plant hyblyg ac amrywiaeth mewn hyd sesiynau - Nid oedd patrwm arbennig i'r oriau o ofal plant y gwnaed cais amdanynt, er mai'r ymateb mwyaf cyffredin oedd 8 y bore i 6 yr hwyr. Nid oedd gofyniad am ofal plant ar ôl 6 yr hwyr neu dros nos a dim ond 3 ymatebydd oedd angen gofal plant rhwng 7 y bore a 9 y bore.
- Ystod oedran y plant y mae angen gofal plant arnynt – Amrywiai ystod oedran y plant oedd angen gofal plant yn fawr ac nid oedd patrwm daearyddol clir. Roedd angen nifer cyfartal o lefydd ar gyfer plant 2 oed gyda gwarchodwyr plant a darparwyr gofal dydd llawn; roedd angen gofal sesiynol ar gyfer plant 2 flwydd oed yn unig; roedd angen gofal y tu allan i oriau ysgol ar gyfer plant 5 – 7 mlwydd oed a darpariaeth chwarae mynediad agored ar gyfer plant 8 – 11 oed a 12 – 14 oed.
- Lleoliad y gofal plant sy'n ofynnol – Roedd bron yr holl ymatebwyr angen i warchodwr plant, gofal sesiynol neu ddarpariaeth chwarae mynediad agored fod yn agos i'r cartref. Roedd yr ymatebion mewn perthynas â gofal dydd llawn yn cynnwys yn agos i'r cartref, yn agos i'r gwaith ac yn agos i ysgol y plentyn; roedd angen gofal plant y tu allan i oriau ysgol yn agos i le gwaith neu le astudio'r rhiant neu'r gofalydd.

7.3.2. Crynodeb o'r Prif Gryfderau a'r Gwendidau

- Ar wahân i ddarpariaeth chwarae mynediad agored ym Mrynbuga a Rhaglan, mae cyfleusterau crèche yn Nhrefynwy a'r amserau agor ychydig yn gynt mewn rhai ardaloedd, nid oedd angen darpariaeth gofal plant nad oes ar gael ar hyn o bryd. Er bod ymatebwyr wedi honni'n flaenorol eu bod angen gofal plant ar wahanol amserau yn y dydd mewn rhai ardaloedd, nid ymddengys bod hyn yn cael ei adlewyrchu yn eu gofynion ar gyfer gofal plant yn y dyfodol.

7.4. Rhwystrau i Ddarpariaeth Gofal Plant

7.4.1. Hygyrchedd Darpariaeth Gofal Plant

- Roedd y rhan fwyaf o randdeiliaid o'r farn bod ansawdd, ystod, argaeledd, lleoliad ac addasrwydd darpariaeth gofal plant yn Sir Fynwy gan amlaf yn dda ac mewn rhai achosion mae'n ardderchog.
- Ystyrir fforddiadwyedd a hyblygrwydd darpariaeth gofal plant yn gyffredinol yn foddhaol, er y cyfeirir at y ddwy elfen gan rieni a chyflogwyr fel rhwystrau i fanteisio ar ofal plant.
- Mae PACEY Cymru yn credu bod Awdurdod Lleol Sir Fynwy'n cydnabod pwysigrwydd gwarchodwyr plant wrth gefnogi cyflenwi gwasanaethau gofal plant sy'n ddigonol, yn hygyrch ac o ansawdd i deuluoedd ar draws Sir Fynwy, gan gynnwys darparu oriau anghymdeithasol ar gyfer rhieni sy'n gweithio ac ar gyfer teuluoedd mewn angen.
- Y farn gyffredinol yw bod yr ystod o ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg/ddwyieithog yn wael neu'n foddhaol ar y gorau.
- Mewn arolwg diweddar a gyflawnwyd ar draws Cymru gan Glybiau Plant Cymru Kids Club, dymunai 35% o'r ymatebwyr gyrchu mwy o ofal gwyliau, hawliodd 30% nad oedd gofal gwyliau addas ar gael a nododd 17% gost fel rhwystr iddynt gael mynediad i ofal plant.
- Ar draws Cymru, mae nifer y rhai'n manteisio ar ddarpariaeth meithrinfeydd dydd llawn wedi syrthio 69% yn 2015 i 67% yn 2016 ac mae cynaliadwyedd yn broblem gyda chostau'n codi a llai o hyder wrth redeg busnes.

- Mae angen mwy o gyllid i gynnal y ddarpariaeth gofal plant bresennol a chreu darpariaeth newydd lle bo'n ofynnol.
- Dywedodd dau o'r cyflogwyr lleol fod ganddynt broblemau recriwtio a chadw staff o ganlyniad i ofal plant; roedd y ddau gyflogwr yn cyflogi gweithwyr ar sifft ac roeddent yn disgwyl i staff weithio penwythnosau.
- Dywedodd un cyflogwr fod y rhan fwyaf o gyflogeion yn defnyddio cymar neu deulu i edrych ar ôl y plant am nad yw'r ddarpariaeth gofal plant ar gael ar yr adegau maent ei hangen; hawliodd un arall fod gofal plant yn rhy ddud ar gyfer ei gyflogeion.

7.4.2. Rhwystrau a Brofwyd gan Grwpiau Oedran Penodol

(i) Rheini sy'n Gweithio

- Diffyg fforddiadwyedd a hyblygrwydd yw'r prif rwystrau a brofir gan rieni sy'n gweithio, yn enwedig y rheiny sy'n gweithio oriau annodweddiadol megis gweithwyr sifft a'r rheiny sy'n gweithio ar benwythnosau.
- Nid yw'r holl leoliadau gofal plant wedi'u cofrestru gydag AGGCC felly ni all rhieni gael mynediad i elfen gofal plant Credydau Treth Gwaith. Dylid darparu digon o hyfforddiant a chymorth i alluogi lleoliadau i gofrestru gydag AGGCC.
- Mae nifer o rieni sy'n gweithio angen gofal dydd llawn ac nid yw hwn ar gael ar hyn o bryd drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Byddai cynnig llywodraeth Cymru o addysg blynnyddoedd cynnar a gofal plant rhad ac am ddim i blant 3 - 4 oed yn cynorthwyo teuluoedd sy'n gweithio a theuluoedd ar incwm isel.

(ii) Rheini sy'n chwilio am waith neu gyfleoedd hyfforddiant

- Mae Cymdeithas Tai Sir Fynwy'n credu bod fforddiadwyedd, hyblygrwydd ac addasrwydd gofal plant yn Sir Fynwy'n rhwystr i'r teuluoedd maent yn delio â hwy. Mae angen cyfleusterau crèche a bwrsariaethau er mwyn i rieni gael mynediad i gyfleoedd hyfforddiant.

- Mae PACE yn darparu cyllid ar gyfer gofal plant i gefnogi rhieni sy'n chwilio am waith neu gyfleoedd hyfforddiant.

(iii) Aelwydydd di-waith

- Ni chyfeiriodd unrhyw randdeiliaid at hyn fel rhwystr gan nad yw'r rhan fwyaf o aelwydydd di-waith yn defnyddio gofal plant, ar wahân i'r rheiny sy'n gymwys i ofal plant dechrau'n Deg yn rhad ac am ddim neu Addysg Blynyddoedd Cynnar a gyllidir.
- Tynnodd Mudiad Meithrin sylw at y ffaith y dylai darpariaeth Dechrau'n Deg cyfrwng Cymraeg fod ar gael yn ne'r sir ynghyd â'r gogledd.

(iv) Teuluoedd ar incwm isel

- Mae fforddiadwyedd yn rhwystr i deuluoedd ar incwm isel a theimlai rhai rhanddeiliaid fod angen llefydd a gynorthwyr er mwyn galluogi teuluoedd ar incwm isel i gyrchu darpariaeth gofal plant.

(v) Unig riant

- Ni chyfeiriodd unrhyw randdeiliaid at hyn fel rhwystr i ofal plant.

(vi) Teuluoedd o gefndiroedd ethnig lleiafrifol

- Nid ymddengys fod hon yn broblem yn Sir Fynwy gan nad oes ond ychydig o deuluoedd o gefndiroedd ethnig lleiafrifol yno ac ni chyfeiriodd unrhyw rai o'r rhieni/gofalwyr neu randdeiliaid ati drwy gydol y broses ymgynghori.

(vii) Teuluoedd â phlant sydd ag anghenion addysgol arbennig neu anabledd

- Mae'r ddarpariaeth ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig neu anabledd yn dda iawn yn Sir Fynwy ac mae cymorth ariannol ar gael i gyflogi staff ychwanegol i integreiddio'r plant hyn o fewn y lleoliad; felly, ni chrybwyllwyd hyn gan unrhyw randdeiliad fel rhwystr.

8. Addysg Ran Amser y Blynyddoedd Cynnar (Cyfnod Sylfaen) a Darpariaeth Dechrau'n Deg

8.1. Dadansoddiad o Addysg Ran Amser y Blynyddoedd Cynnar (Cyfnod Sylfaen)

- Nifer y darparwyr gofal plant a gyllidwyd i ddarparu Addysg Ran Amser y Blynyddoedd Cynnar - Mae gennym ar hyn o bryd 27 o ddarparwyr gofal plant wedi'u cyllido i ddarparu Addysg y Blynyddoedd Cynnar, o'r rhain, mae 16 wedi'u cofrestru fel gofal dydd llawn ac 11 wedi'u cofrestru fel gofal sesiynol. Nid ydym ar hyn o bryd yn defnyddio gwarchodwyr plant i gyflenwi Addysg y Blynyddoedd Cynnar yn Sir Fynwy. Gwasgerir Darparwyr Addysg y Blynyddoedd Cynnar drwy bob ardal yn Sir Fynwy. Dim ond un darparwr gofal sesiynol sy'n gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg; lleolir hwn yn Y Fenni.
- Nifer yr ysgolion a gyllidwyd i ddarparu Addysg Ran Amser y Blynyddoedd Cynnar – Mae ar hyn o bryd 12 ysgol gan yr ALI â dosbarthiadau meithrin yn cyflenwi Addysg y Blynyddoedd Cynnar; mae hefyd 1 ysgol breifat yn cael ei chyllido i ddarparu Addysg y Blynyddoedd Cynnar yn Nhrefynwy. Nid oes ysgolion ym Mrynbuga a Rhaglan â meithrinfeydd yr ALI, er bod un â darparwr gofal plant ar y safle. Mae gan yr ysgolion Cymraeg yn Y Fenni a Chil-y-coed ddosbarth meithrin ond nid oes darpariaeth Addysg y Blynyddoedd Cynnar drwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghas-gwent, Trefynwy neu Frynbuga a Rhaglan.
- Proffil presenoldeb plant yn mynychu darpariaeth (darparwyr gofal plant ac ysgolion) – Mae'r nifer sy'n manteisio ar lefydd yn gyffredinol yn dda iawn, o gymharu â'r ffigurau poblogaeth, yn enwedig yn Y Fenni a Chil-y-coed. Yn Y Fenni a Chas-gwent mae mwy o blant yn cael mynediad i'w Haddysg y Blynyddoedd Cynnar yn ysgolion yr ALI, tra defnyddia mwy o blant yn Nhrefynwy, Cil-y-coed a Brynbuga a Rhaglan ddarparwyr gofal plant.
- Proffil presenoldeb wythnosol plant yn mynychu darpariaeth a gyllidwyd gan ddarparwyr gofal plant – Mae nifer y plant yn mynychu darpariaeth Addysg y Blynyddoedd Cynnar yn debyg iawn bob diwrnod o'r wythnos, er ei fod yn is yn gyffredinol ar ddydd Gwener ac mae ychydig yn is ar ddydd Llun yn Y Fenni yn unig.
- Nifer y llefydd gofal plant a lanwyd, sydd eu hangen ac sydd ar gael – Ar hyn o bryd mae 1,604 o lefydd Addysg y Blynyddoedd Cynnar ar gael yn Sir Fynwy; mae 886 o'r llefydd hyn mewn lleoliadau gofal plant, mae 690 o fewn ysgolion yr ALI ac mae 28 mewn ysgol breifat. Mae nifer y plant sy'n manteisio ar y llefydd hyn yn amrywio o oddeutu 52% yn nhymor yr hydref i 78% yn nhymor yr haf pryd mae'r nifer uchaf o blant yn gymwys. Caiff nifer y llefydd y manteisir arnynt ei fonitro yn ôl ardal ddaearyddol bob tymor ac mae wedi bod yn gyson am nifer o flynyddoedd. Caiff lleoliadau gofal plant ychwanegol eu cymeradwyo'n unig i ddarparu Addysg y Blynyddoedd Cynnar pan dynnir sylw at angen medwn ardal ddaearyddol benodol i sicrhau bod digon o lefydd, tra cedwir llefydd dros ben i'r lleiafswm i sicrhau cynaliadwyedd lleoliadau ac ysgolion.

- Nifer y rhieni nad ydynt yn hawlio'u hawl rhad ac am ddim a'r rhesymeg – Dywedodd llai na 5% o ymatebwyr nad oeddent yn hawlio'u hawl rhad ac am ddim i Addysg y Blynyddoedd Cynnar. Y prif reswm a roddwyd dros hyn oedd bod eu plentyn eisoes mewn addysg llawn amser; fodd bynnag, nid yw hyn yn opsiwn yn Sir Fynwy felly ymddengys nad yw rhieni wedi deall y cwestiwn. Dim ond 2 riant hawliodd nad oeddent yn ymwybodol o'r hawl hwn ac un arall nad oedd amseriadau'r sesiynau'n cwrdd â'u hanghenion. Yn seiliedig ar y llefydd y manteisir arnynt wrth eu cymharu â data genedigaethau byw, nid oes llawer iawn o blant Sir Fynwy nad ydynt yn derbyn eu hawl i Addysg y Blynyddoedd Cynnar yn rhad ac am ddim. Rydym yn ymwybodol o rai plant yn manteisio ar y ddarpariaeth hon mewn awdurdodau cyfagos oherwydd lleoliad lle gwaith y rhieni neu'r teulu estynedig sy'n darparu cymorth gyda gofal plant.
- Gofal plant sydd ei angen ar rieni i'w galluogi i hawlio'u hawl llawn – Yr unig ofal plant ychwanegol sy'n ofynnol gan rieni a gwblhaodd yr arolwg oedd gofal cyn ysgol a chrybwyllwyd hyn yn unig gan 1 rhiant. Rydym yn ymwybodol nad yw rhai teuluoedd yn gallu cael mynediad i ddarpariaeth yn nosbarthiadau meithrin yr ALI oni bai bod darpariaeth amlapio ar y safle, oherwydd bod angen gofal dydd llawn neu oriau hwy arnynt. Mae nifer o'n darparwyr gofal plant wedi estyn eu horiau ac wedi cofrestru fel darparwyr gofal dydd llawn er mwyn cwrdd â'r angen hwn.

8.2 Crynodeb o'r Prif Gryfderau a'r Gwendidau

Cryfderau:

- Mae ystod dda o ddarparwyr Addysg y Blynyddoedd Cynnar felly gall rhieni ddewis y math sy'n gweddu orau i'w hanghenion.
- Mae gan Sir Fynwy drefniadau traws ffin yn eu lle gyda'r chwe awdurdod cyfagos (yn Lloegr a Chymru) felly gall rhieni gael mynediad i ddarpariaeth ar draws y ffin os yw hyn yn fwy cyfleus.
- Mae'r ddarpariaeth gyda darparwyr gofal plant yn hyblyg iawn, gellir rhannu hawl ar draws mwy nag un lleoliad ac nid oes lleiafswm o sesiynau y mae'n rhaid eu cymryd er mwyn hawlio cyllid, fel mewn rhai awdurdodau lleol.
- Mae nifer y plant sy'n manteisio ar Addysg y Blynyddoedd Cynnar yn dda iawn.

Gwendidau:

- Nid oes hyblygrwydd o fewn ysgolion yr ALI, mae'n rhaid i blant fynychu am naill ai 5 sesiwn yn y bore neu 5 sesiwn yn y prynhawn ac nid oes gan nifer o ysgolion ofal amlapio ar y safle.
- Mae diffyg Addysg y Blynyddoedd Cynnar cyfrwng Cymraeg o fewn lleoliadau gofal plant.

8.3. Dadansoddiad o'r Ddarpariaeth Dechrau'n Deg

- Nifer y darparwyr gofal plant (wedi'i ddadansoddi dan ofal dydd llawn, gofal sesiynol, gwarchodwr plant) a gyllidir i ddarparu Dechrau'n Deg, gan gynnwys darpariaeth Dechrau'n Deg yn unig. - Ar hyn o bryd mae 6 darparwr yn cael eu cyllido i ddarparu Dechrau'n Deg, 3 yn Y Fenni ac 1 yr un yng Nghil-y-coed, Cas-gwent a Threfynwy. Nid oes darpariaeth Dechrau'n Deg ym Mrynbuga a Rhaglan gan nad oes plant sy'n gymwys yn yr ardal hon. Caiff holl ddarparwyr Dechrau'n Deg eu cofrestru fel gofal sesiynol, nid oes gofal dydd llawn neu warchodwyr plant yn cyflenwi darpariaeth Dechrau'n Deg yn Sir Fynwy. Mae'r lleoliadau yng Nghil-y-coed, Cas-gwent a Threfynwy'n cynnig llefydd Dechrau'n Deg yn unig, tra mae'r 3 lleoliad yn Y Fenni yn cynnig darpariaeth gymysg. Mae un o'r lleoliadau yn Y Fenni yn un cyfrwng Cymraeg ond mae'r 5 arall yn Saesneg gyda rhai elfennau dwyieithog.
- Proffil presenoldeb wythnosol plant yn mynychu darpariaeth Dechrau'n Deg – Yn ôl y data, manteisir ar yr holl lefydd yn llawn amser.
- Nifer y llefydd a lanwyd a'r llefydd sy'n ofynnol - Yn Y Fenni, mae llefydd bore'n fwy poblogaidd na llefydd prynhawn; nid oes dewis yng Nghil-y-coed neu Gas-gwent gan nad oes ond un sesiwn ar gael bob diwrnod. Mae'r rhan fwyaf o lefydd wedi'u llenwi yn Nhrefynwy a Chas-gwent felly rydym yn ystyried cymeradwyo darparwyr ychwanegol i ddarparu ar gyfer plant Dechrau'n Deg yn yr ardaloedd hyn; mae llefydd digonol ar hyn o bryd mewn ardaloedd eraill.
- Nifer y rhieni yn byw mewn ardal Dechrau'n Deg sy'n derbyn gofal plant yn rhad ac am ddim - Mae nifer y rhai sy'n manteisio ar y llefydd, yn ôl yr arolwg, yn 50%; fodd bynnag, mae'r rheswm a roddir dros beidio â hawlio gofal plant yn rhad ac am ddim yn awgrymu nad yw'r rhan fwyaf o'r plant hyn yn wirioneddol gymwys. Yn ôl data a gyflenwyd i Lywodraeth Cymru, nifer y rhai a fanteisiodd ar lefydd yn 2015/16 oedd 82%.
- Nifer y rhieni nad ydynt yn hawlio'u gofal plant yn rhad ac am ddim a'r rhesymeg – Y prif reswm a roddir dros beidio â hawlio gofal plant yn rhad ac am ddim yw nad ydynt eisiau defnyddio'r lleoliad hwnnw, mae rhieni'n gweithio ac mae'n ofynnol iddynt gael gofal dydd llawn ac maent eisoes wedi ymgartrefu mewn lleoliad arall.

8.4. Crynodeb o'r Prif Gryfderau a'r Gwendidau

Cryfderau:

- Mae nifer y rhai sy'n manteisio ar gynllun Dechrau'n Deg yn dda iawn ac fel arfer cymerir llefydd llawn amser.
- Yn Y Fenni, gall rhieni ddewis rhwng 3 gwahanol leoliad, gan gynnwys gofal plant cyfrwng Cymraeg.
- Yn Nhrefynwy a'r Fenni, gall rhieni gael mynediad i ofal plant Dechrau'n Deg yn y sesiynau bore a phrynhawn.

Gwendidau:

- Mae math y gofal plant sydd ar gael yn darparu llefydd Dechrau'n Deg yn gyfyngedig i ofal sesiynol ac nid yw'n cwrdd ag anghenion y rhieni sy'n gweithio.
- Mae gofal plant cyfrwng Cymraeg Dechrau'n Deg ar gael yn Y Fenni'n unig.

9.1 Darpariaeth Clybiau Brecwast Rhad ac am Ddim

Ardal	Enw'r Ysgolion	Presenoldeb Cyfartalog
Y Fenni	Ysgol Gynradd Cantref	36
	Ysgol Gynradd Cross Ash	27
	Ysgol Gynradd Deri View	61
	Ysgol Gynradd Gilwern	66
	Ysgol Gynradd Llan-ffwyst	58
	Ysgol Gynradd Llantilio Pertholey	65
	Ysgol Gynradd Llanfihangel Crucornau	24
	Ysgol Gynradd Babyddol Our Lady & St. Michael's	46
	Ysgol Gymraeg Y Fenni	41
	<i>Cyfanswm Y Fenni</i>	<i>424</i>
Trefynwy	Ysgol Gynradd Kymin View	41
	Ysgol Gynradd Llandogo	8
	Ysgol Gynradd Osbaston	45
	Ysgol Gynradd Overmonnow	66
	Ysgol Gynradd Trellech	40
<i>Cyfanswm Trefynwy</i>	<i>200</i>	

Cas-gwent	Ysgol Gynradd Pembroke	53
	Ysgol Gynradd Shirenewton	32
	Ysgol Gynradd Babyddol y Santes Fair	59
	Ysgol Gynradd The Dell	112
	Ysgol Gynradd Thornwell	58
<i>Cyfanswm Cas-gwent</i>		<i>314</i>
Cil-y-coed	Ysgol Gynradd yr Archesgob Rowan Williams	51
	Ysgol Gynradd Castle Park	43
	Ysgol Gynradd Dewstow	48
	Ysgol Gynradd Magwyr	87
	Ysgol Gynradd Rogiet	57
	Ysgol Gynradd Gwndy	76
	Ysgol Gymraeg Y Ffin	37
<i>Cyfanswm Cil-y-coed</i>		<i>399</i>
Brynbuga a Rhaglan	Ysgol Gynradd Brynbuga	71
<i>Cyfanswm Brynbuga a Rhaglan</i>		<i>71</i>
CYFANSWM		1,408

Dim ond 3 ysgol gynradd yn Sir Fynwy sydd heb glwb brechwast rhad ac am ddim ar y safle; yn hytrach mae gan 2 o'r ysgolion hyn glwb gofal plant cyn ysgol ar y safle lle codir tâl.

10. Credyd Treth Gwaith / Credyd Cynhwysol a Gofal Plant a Gefnogir gan y Cyflogwr/ Gofal Plant yn Rhydd o Dreth

10.1. Dadansoddiad o Gredyd Treth Gwaith / Credyd Cynhwysol a Gofal Plant a Gefnogir gan y Cyflogwr/ Gofal Plant yn Rhydd o Dreth

Dim ond 68 o ymatebwyr atebodd y cwestiwn mewn perthynas â Chredyd Treth Gwaith neu Gredyd Cynhwysol ar yr arolwg rhieni ac atebodd and 55 o ymatebwyr y cwestiwn mewn perthynas â Gofal Plant a Gefnogir gan y Cyflogwr, felly mae canrannau wedi'u rhoddi ynghyd â niferoedd pendant, fodd bynnag, mae'n dal yn anodd cael unrhyw wybodaeth ystyrlon.

- Nifer yr ymatebwyr yn hawlio darpariaeth gofal plant i bob plentyn a nifer y plant yn mynychu - Dim ond 10 ymatebydd honnodd eu bod yn hawlio elfen gofal plant o'r Credyd Treth Gwaith neu'r Credyd Cynhwysol; fodd bynnag, mae hyn yn cyfateb i 15% o'r rheiny a atebodd y cwestiwn hwn ar yr arolwg rhieni. Roedd cyfanswm o 16 o blant roedd y credyd treth yn cael ei hawlio ar eu cyfer, o'r rhain roedd 4 yn derbyn gofal gan warchodwr plant (25%), roedd 5 yn mynychu meithrinfa ddydd llawn (31%) ac roedd 7 yn mynychu clwb ar ôl ysgol (44%). Honnodd 19 o ymatebwyr eu bod yn hawlio gofal plant yn rhydd o dreth drwy Gynllun a Gefnogir gan y Cyflogwr ar gyfer cyfanswm o 24 o blant; o'r rhain, roedd 6 yn derbyn gofal gan warchodwr (25%), roedd 3 yn mynychu meithrinfa ddydd llawn (12%), roedd 5 yn mynychu clwb ar ôl ysgol (21%), a 10 heb nodi'r math o ofal plant a ddefnyddid (42%).
- Nifer yr ymatebwyr yn bwriadu hawlio yn y dyfodol a gofynion gofal plant – Dim ond 4 o'r 68 o ymatebwyr sy'n bwriadu hawlio'r elfen gofal plant o'r Credyd Treth Gwaith neu'r Credyd Cynhwysol; mae hyn yn cyfateb i 6% ac mae 8 yn ansicr a fyddant yn hawlio yn y dyfodol (26%). Mae'r rheiny sy'n bwriadu hawlio angen cymysgedd o feithrinfa ddydd llawn a gofal plant ar ôl ysgol. Dim ond 6 o'r 55 o ymatebwyr (11%) sy'n bwriadu hawlio gofal plant yn rhydd o dreth drwy Gynllun a Gefnogir gan y Cyflogwr yn y dyfodol ac mae 8 (15%) yn ansicr a fyddant yn hawlio. Mae hanner y rhain yn bwriadu defnyddio gofal plant ar ôl ysgol ac mae bron hanner angen meithrinfa ddydd llawn, gydag un ymatebydd angen gwarchodwr plant.
- Nifer yr ymatebwyr nad ydynt yn hawlio a'r rhesymeg - Honnodd 58 o'r 68 o ymatebwyr (85%) nad oeddent yn hawlio'r elfen gofal plant o'r Credyd Treth Gwaith neu'r Credyd Cynhwysol; Y prif resymau dros beidio â chyrchu hwn oedd eu bod yn gwybod nad oeddent yn gymwys (45%), eu bod yn ansicr a oeddent yn gymwys (18%) ac nad oeddent yn gwybod amdano (20%). Roedd y rhesymau eraill a roddwyd yn cynnwys bod eu hamgylchiadau'n newid yn rhy aml (7%), maent yn dewis peidio â hawlio (2%), mae'r broses yn rhy gymhleth (2%), nad oedd ganddynt amser i hawlio (2%) ac nad ydynt yn talu am ofal plant (2%). Nid oedd 36 o'r 55 o ymatebwyr (65%) yn hawlio gofal plant yn rhydd o dreth drwy Gynllun a Gefnogir gan y

Cyflogwr. Y prif resymau dros beidio â chyrchu hwn oedd nad oeddent yn gwybod am y cynllun (19%), maent yn gwybod nad ydynt yn gymwys (19%) ac maent yn ansicr a ydynt yn gymwys (11%). Mae 2 ymatebydd wedi dewis peidio â'i hawlio (6%) ac mae 1 heb dalu am eu gofal plant (3%). Ni roddodd 42% o'r ymatebwyr hyn reswm dros beidio â'i hawlio.

10.2. Crynodeb o'r Prif Gryfderau a'r Gwendidau

Cryfderau:

- Mae argaeledd gofal plant yn rhydd o dreth yn gostwng y rhwystr i'r rheiny sy'n dymuno gweithio neu gael mynediad i gyflogaeth.

Gwendidau

- Yn ôl yr arolwg rhieni, mae nifer y rheiny'n manteisio ar elfen gofal plant Credyd Treth Gwaith neu ofal plant yn rhydd o dreth drwy'r Cynlluniau a Gefnogir gan Gyflogwr yn isel yn Sir Fynwy.
- Mae cyfradd uchel o rieni yn Sir Fynwy heb fod yn gymwys ar gyfer un o'r cynlluniau hyn neu nid ydynt ar gael.
- Roedd nifer sylweddol o ymatebwyr nad oeddent yn ymwybodol o'r cynlluniau hyn a heb wybod a oeddent yn gymwys.

11. Cynaliadwyedd

Mae grantiau cychwyn ar gael ar hyn o bryd ar gyfer clybiau gofal plant y tu allan i oriau ysgol drwy gyfrwng Grant Gofal Plant y Tu Allan i Oriau Ysgol LIC; mae Gweithiwr Datblygu hefyd yn cael ei ariannu drwy'r grant hwn i ddarparu cymorth busnes ac i'w cynorthwyo gyda'r broses gofrestru. Yn anffodus, nid yw telerau ac amodau'r grant hwn yn caniatáu iddo gael ei ddefnyddio ar gyfer gofal cyn ysgol, felly, nid oes cymorth ariannol ar gael i gynorthwyo'r lleoliadau hyn gyda chostau cychwyn. Mae gwarchodwyr plant yn gymwys i dderbyn cymorth ariannol sy'n cyfateb i gyfanswm o bron £500; mae hwn yn cynnwys cost y cwrs CYPOP5, pecyn cychwyn busnes PACEY gan gynnwys yswiriant atebolrwydd cyhoeddus a grant o £100 tuag at gyfarpar iechyd a diogelwch.

Mae cynaliadwyedd yn dod yn fwy o broblem i leoliadau gofal plant gyda chynnydd yn yr isafswm cyflog, costau rhent, cyfleustodau a threthi busnes. Mae hon yn broblem benodol ar gyfer darparwyr sydd wedi'u cymeradwyo o ganlyniad i'r ffaith na fu cynnydd yng nghyllid Addysg y Blynyddoedd Cynnar am lawer o flynyddoedd, felly bu'n rhaid iddynt newid ffioedd atodol er mwyn parhau'n gynaliadwy. Yn ychwanegol, mae Sir Fynwy'n awdurdod gwledig yn bennaf felly gall diffyg niferoedd achosi problemau cynaliadwyedd i rai lleoliadau. Mae grantiau cynaliadwyedd ar gael ar gyfer yr holl leoliadau gofal plant; fodd bynnag, mae'n rhaid iddynt fod yn gallu darparu tystiolaeth o'r modd y byddant yn defnyddio'r cyllid hwn i'w galluogi i ddod yn gynaliadwy yn y dyfodol. Dros y 3 blynedd ddiwethaf, mae cyfartaledd o chwe lleoliad y flwyddyn wedi derbyn grant cynaliadwyedd ac mae mwyafrif y rhain wedi bod yn lleoliadau gofal plant y tu allan i oriau ysgol.

Mae tipyn o hyfforddiant gorfodol y mae'n rhaid ei gwblhau gan weithwyr gofal plant yn rheolaidd, ynghyd â hyfforddiant CPD; er bod y cyrsiau hyn yn aml yn cael eu hwyluso gan yr Awdurdod Lleol, nid ydynt fel arfer yn cael eu cyllido ac mae hyn yn gosod baich ychwanegol ar leoliadau. Mae darparu cymorth priodol i blant ag Anghenion Addysgol Arbennig neu anabledd yn broblem arall oherwydd, er bod cyllid yn cael ei ddarparu ar gyfer lleoliadau i gyflenwi cymorth ychwanegol, cyfyngir hyn i 2 awr y sesiwn am fwyafswm o 5 sesiwn yr wythnos, felly mae costau pellach yn codi'n gyffredinol i'r lleoliad.

Nid yw dadgofrestru AGGCC yn fater o bwys yn Sir Fynwy; mae nifer cymharol uchel yn manteisio ar warchodwyr plant, ond mae hyn yn bennaf o ganlyniad i natur y swydd ynn hytrach na materion yn ymwneud â chynaliadwyedd. Y prif reswm dros gau lleoliadau gofal plant eraill o fewn sir Fynwy fu diffyg galw am lefydd neu anallu i ddod o hyd i staff sydd wedi cymhwyso'n briodol.

Mae cymorth ariannol ar gael i rieni gyda chost gofal plant megis yr elfen gofal plant o'r Credyd Treth Gwaith a gofal plant yn rhydd o dreth drwy Gynllun a Gefnogir gan Gyflogwr; fodd bynnag mae nifer y rhai sy'n manteisio ar y cynlluniau hyn yn gymharol isel yn Sir Fynwy. Arferai Cynlluniau Cymorth Lleoedd gael eu cyllido drwy Grant Cymorth LIC i alluogi teuluoedd ar incwm isel i gyrchu gofal plant yn rhad ac am ddim. Yn anffodus, digomisiynwyd y prosiectau hyn ym Medi 2011 ac, ers hynny, ni fu unrhyw gymorth ariannol ar gael oddi wrth yr Awdurdod Lleol i gynorthwyo teuluoedd gyda chost gofal plant.

12. Traws Ffin

Mae gan Gyngor Sir Fynwy drefniadau traws ffiniol yn eu lle ar gyfer Addysg y Blynyddoedd Cynnar gyda phob un o'r awdurdodau lleol cyfagos, pedwar yng Nghymru a dau yn Lloegr.

Roedd nifer plant Sir Fynwy a gafodd eu Haddysg Blynyddoedd Cynnar y tu allan i'r Awdurdod Lleol yn ystod tymor yr haf 2016 fel a ganlyn:

Awdurdod Lleol	Nifer Plant Sir Fynwy
Casnewydd	15
Torfaen	15
Blaenau-Gwent	0
Powys	1
Sir Gaerloyw	0
Henffordd	36
CYFANSWM	67

Roedd dadansoddiad o'r plant o'r tu allan i'r Awdurdod Lleol a gofodd fynediad i'w Haddysg Blynyddoedd Cynnar o fewn Sir Fynwy yn ystod tymor yr haf 2016 fel a ganlyn:

Awdurdod Lleol	Nifer yn Mynychu Lleoliad Nas Cynhelir	Nifer yn Mynychu Meithrinfa'r ALL	CYFANSWM
Casnewydd	11	19	30
Torfaen	2	1	3
Blaenau-Gwent	4	1	5
Powys	1	0	1
Sir Gaerloyw	16	2	18
Henffordd	5	0	5
CYFANSWM	39	23	62

Ni ddarparodd yr arolwg rhieni unrhyw wybodaeth ddefnyddiol ar ein cyfer mewn perthynas â threfniadau traws ffin ar gyfer gofal plant gan i'r unig ymatebydd ddweud eu bod yn defnyddio gofal plant y tu allan i'r Awdurdod Lleol, ym Mlaenau Gwent.

Buom yn ymgynghori gyda chydweithwyr ym mron pob un o'r Awdurdodau Lleol cyfagos fel rhan o'r broses hon i holi mewn perthynas ag unrhyw gyswllt roeddent wedi'i gael gyda thrigolion Sir Fynwy oedd yn manteisio ar ofal plant o fewn eu Hawdurdod Lleol neu'n gwneud ymholiadau a derbyniasom yr ymatebion canlynol:

- Cysylltwyd â Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Torfaen gan dri theulu o Sir Fynwy, dau o'r rheiny'n holi ynghylch gweithgareddau hamdden, ac un ynghylch gofal plant y tu allan i oriau ysgol a chlybiau gwyliau. Mae ganddynt un lleoliad gofal plant yn agos i'r ffin y mae sawl teulu o Sir Fynwy'n ei fynychu ac mae ganddo drefniadau trosglwyddo gydag ysgol gynradd yn Sir Fynwy.
- Cofnododd Cyngor Sir Blaenau-Gwent eu bod yn ymwybodol o dri theulu yn Sir Fynwy sy'n defnyddio darpariaeth gofal plant o fewn Blaenau-Gwent. Y rhesymau a roddir dros hyn yw bod y ddarpariaeth yn nes i'r gwaith, mae tad-cu a mam-gu'n byw yn Sir Fynwy ac yn helpu gyda gofal plant ac mae'r lleoliad â gwell canlyniadau Estyn.
- Mae Cyngor Sir Powys yn ymwybodol o un plentyn yn Sir Fynwy sy'n cyrchu'i Addysg y Blynyddoedd Cynnar mewn lleoliad sy'n nes at ffin Sir Fynwy.
- Nid yw Cyngor Sir Gaerloyw yn ymwybodol o unrhyw deuluoedd o Sir Fynwy sy'n cyrchu darpariaeth o fewn eu hawdurdod.
- Dywedodd Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Swydd Henffordd i dri theulu o Sir Fynwy gysylltu â hwy ac iddynt eu cyfeirio at y wybodaeth berthnasol.
- Cysylltwyd â Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Caerffili gan bedwar teulu o Sir Fynwy, a chyfeiriwyd dau ohonynt at weithgareddau rhieni a phlant bach, un at wasanaeth eiriolaeth ieuencid ac un at ofal plant dydd llawn.

Mae'r holl wybodaeth hon yn awgrymu bod y rhan helaethaf o drigolion Sir Fynwy'n gallu cyrchu gofal plant addas neu ddarpariaeth Addysg y Blynyddoedd Cynnar o fewn yr Awdurdod Lleol.

13. Datblygiad Gweithlu

13.1 Dadansoddiad o Ddatblygiad Gweithlu

- Dim ond 5% o'r gweithlu gofal plant yn Sir Fynwy sydd heb gymhwyster gofal plant perthnasol neu sydd heb nodi pa gymhwyster sydd ganddynt. O'r rhain, mae 2% ar hyn o bryd yn astudio tuag at gymhwyster lefel 2 perthnasol 29% tuag at gymhwyster lefel 3 perthnasol, felly mae 10% o'r gweithlu heb gymhwyster gofal plant perthnasol a heb weithio tuag at gymhwyster.
- Yn ôl data'r SASS, y math o ofal plant â'r ganran uchaf o staff heb gymhwyster yw gwarchodwyr plant (27%); fodd bynnag, ni all gwarchodwyr plant dderbyn cofrestriad tan iddynt gwblhau CYPOP5, felly rydym yn cymryd bod hyn yn cyfeirio at y rheiny sydd heb gwblhau cymhwyster lefel 2 llawn, mae gan 45% o warchodwyr plant gymhwyster lefel 3 ac mae 25% lefel 4 neu uwch. Mae 27% o warchodwyr plant ar hyn bryd yn gweithio tuag at gymhwyster gofal plant lefelo uwch.
- Dim ond 10% o'r gweithwyr gofal plant o fewn lleoliadau gofal dydd llawn sydd heb gymhwyster ac mae 31% o'r rhain ar hyn o bryd yn gweithio tuag at gymhwyster lefel 3, mae 9% o'r gweithlu gofal dydd llawn yn gymwys hyd at lefel 2, mae 63% yn gymwys hyd at lefel 3 ac mae 18% yn gymwys hyd at lefel 4 neu uwch. Mae 23 o staff (18%) ar hyn o bryd yn gweithio tuag at lefel uwch o gymhwyster.
- Mae 14% o'r gweithwyr plant mewn lleoliadau gofal sesiynol heb gymhwyster ac mae 42% o'r rhain ar hyn o bryd yn gweithio tuag at gymhwyster lefel 3 perthnasol. Mae 5% o weithwyr gofal sesiynol yn gymwys hyd at lefel 2, mae 60% yn gymwys hyd at lefel 3 ac mae 22% yn gymwys hyd at lefel 4 neu uwch. Mae 24% o weithwyr gofal plant ar hyn o bryd yn gweithio tuag at gymhwyster lefel uwch.
- Mae pob un o'r staff sy'n gweithio yn y crèche'n gymwys, 50% ar lefel 3 a 50% ar lefel 5; fodd bynnag, dim ond un crèche sydd wedi'i gofrestru yn Sir Fynwy, felly dim ond 4 gweithiwr gofal plant yw hyn.
- Mae'r ffigurau ar gyfer gofal plant y tu allan i oriau ysgol yn cyfeirio'n bennaf at leoliadau cofrestredig, byddai'r canrannau'n is petai'r holl leoliadau heb eu cofrestru'n cael eu cynnwys gan fod diffyg staff sydd wedi'u cymhwyso'n briodol yn aml yn rhwystr i gofrestrriad. Mae 17% o weithwyr mewn clybiau y tu allan i oriau ysgol heb gymhwyster a dim ond 2 o'r rhain (18%) sy'n gweithio tuag at gymhwyster lefel 3; mae 23% yn gymwys hyd at lefel 2, mae 45% yn gymwys hyd at lefel 3 ac mae 14% yn gymwys hyd at lefel 4 neu uwch. Mae 15 o weithwyr gofal plant y tu allan i oriau ysgol (23%) ar hyn o bryd yn

gweithio tuag at gymhwyster lefel uwch.

- Yr ymateb mwyaf poblogaidd mewn perthynas â'r hyfforddiant ychwanegol a gyflawnwyd oedd y modiwlau Cyfnod Sylfaen, o'r hyfforddiant a gwblhawyd at anghenion ychwanegol neu at iechyd a diogelwch.
- Mae oddeutu 100 o weithwyr gofal plant fydd angen hyfforddiant Cymorth Cyntaf neu hyfforddiant Glanweithdra Bwyd yn 2017 gan y bydd eu tystysgrifau presennol yn dirwyn i ben yn ystod y 12 mis nesaf; y ffigur ar gyfer hyfforddiant Amddiffyn Plant yw 75 o weithwyr gofal plant angen hyfforddiant Cymorth Cyntaf neu hyfforddiant Glanweithdra Bwyd a 100 angen hyfforddiant Amddiffyn Plant.
- Er nad yw hyfforddiant gorfodol bellach yn cael ei ariannu gan yr Awdurdod Lleol, mae rhaglen ddatblygu'n cael ei datblygu i sicrhau bod digon o gyrsiau ar gael ar draws Sir Fynwy y gellir eu cyrchu gan y gweithlu gofal plant. Mae hefyd nifer o gyrsiau hyfforddiant nad ydynt yn orfodol sy'n cael eu cynnig yn rhad ac am ddim i alluogi gweithwyr gofal plant i barhau â'u datblygiad proffesiynol.

14. Canlyniadau'r Ymgynghoriad gyda Rhanddeiliaid (fel yr amlinellir yn adran 2)

Crynhair isod y prif gasgliadau o'r ymgynghoriad a gyflawnwyd gyda rhanddeiliaid allweddol:

Fforwm Addysg Cyfrwng Cymraeg

- Mae lleoliad, hyblygrwydd, fforddiadwyedd ac ansawdd y ddarpariaeth gofal plant ar y cyfan yn dda.
- Mae ystod y ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg / dwyieithog yn wael neu'n foddhaol ar y gorau.
- Mae angen mwy o ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg, yn enwedig gofal dydd llawn i gwrdd ag anghenion rhieni sy'n gweithio yn arbennig yn ne-ddwyrain y sir.
- Mae gofal plant y tu allan i oriau ysgol ar bris rhesymol ar gael ar safle'r ddwy ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg, ynghyd ag ysgolion cyfagos a gwarchodwyr plant. Mae'r ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yng ngogledd y sir hefyd yn darparu gofal plant amlapio fforddiadwy ar y safle ar gyfer disgyblion oed meithrin.
- Mae cael gafael ar staff addas i weithio mewn lleoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg yn broblem ac mae angen mwy o hyfforddiant.
- Mae angen datblygu cysylltiadau rhwng sefydliadau i wella trosglwyddo, yn enwedig cysylltiadau ag Ymwelwyr Iechyd.
- Mae angen hysbysebu i sicrhau bod rhieni'n ymwybodol o argaeledd a buddiannau gofal plant ac addysg cyfrwng Cymraeg.

Grŵp Monitro Chwarae

- Mae newidiadau i'r broses gofrestru wedi golygu nad yw'n ariannol hyfyw i redeg cynlluniau chwarae adeg gwyliau fel roeddent yn eu rhedeg yn gynt, yn arbennig mewn perthynas â chael gafael ar staff sy'n addas gymwys i weithio o'u mewn.

Sefydliadau Ymbarél

- Roedd Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn analluog i roi ymateb penodol i Sir Fynwy ond y sylwadau cyffredinol oedd:
 - Mae angen ariannu parhaus i gynnal staff cyfredol darpariaeth gofal plant y tu allan i oriau ysgol a chreu darpariaeth newydd, lle bo angen.
 - Mewn arolwg diweddar a gynhaliwyd ar draws Cymru, roedd 35% o'r ymatebwyr yn dymuno mynediad i fwy o ofal gwylia, hawliai % nad oedd gofal plant addas adeg gwyliau ar gael a nododd 17% fod cost yn rhwystr iddynt gael mynediad i ofal plant.
 - Dylid darparu digon o hyfforddiant i alluogi lleoliadau i gofrestru gydag AGGCC fel y gall rhieni wneud cais am gredydau treth.
 - Mae angen cymorth lleoedd i alluogi teuluoedd ar incwm isel i gael mynediad i ddarpariaeth gofal plant.
 - Mae cymorth 1:1 yn hanfodol i gefnogi plant ag anabledd ac i'w hintegreiddio o fewn lleoliadau gofal plant.

- Mae angen ymgyrch farchnata genedlaethol i hyrwyddo gofal plant a hysbysu rhieni am y buddiannau.
- NDNA (Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Cymru)
 - Mae ansawdd, ystod, argaeledd, lleoliad ac addasrwydd gofal plant yn Sir Fynwy'n dda; mae fforddiadwyedd a hyblygrwydd yn foddhaol tra mae darpariaeth ddwyieithog neu Gymraeg yn wael.
 - Ar draws Cymru, mae graddfeydd presenoldeb wedi syrthio o 69% yn 2015 i 67% yn 2016 ac mae cynaliadwyedd yn broblem gyda chostau'n codi a llai o hyder mewn busnes.
 - Byddai cynnig Llywodraeth Cymru o ofal plant yn y blynyddoedd cynnar yn rhad ac am ddim ar gyfer plant 3 a 4 oed yn cynorthwyo teuluoedd sy'n gweithio a theuluoedd ar incwm isel.
- Mudiad Meithrin
 - Er bod Sir Fynwy ar y ffin gyda Lloegr, ni ddylai hyn rwystro mynediad i ofal plant ac addysg cyfrwng Cymraeg.
 - Cafodd yr Eisteddfod ymateb cadarnhaol ac mae'n bwysig parhau i godi ymwybyddiaeth o fanteision dwyieithrwydd.
 - Dim ond un cylch meithrin sydd yn Sir Fynwy ar hyn o bryd ond cyn ehangu, y cam cyntaf yw datblygu grwpiau Ti a Fi llwyddiannus. Ar hyn o bryd mae grwpiau Ti a Fi mewn gwahanol ardaloedd o Sir Fynwy ac maent yn edrych ar agor chweched grŵp yn y dyfodol agos.
 - Mae angen gweithlu sy'n hyfedr mewn siarad Cymraeg yn barod ar gyfer y cynnig gofal plant rhad ac am ddim.
 - Dylai darpariaeth Dechrau'n Deg cyfrwng Cymraeg fod ar gael yn ne'r sir i gefnogi teuluoedd ar incwm isel.
- PACEY
 - Mae PACEY Cymru'r credu bod ALI Sir Fynwy'n cydnabod pwysigrwydd gwarchodwyr plant wrth gefnogi cyflenwi gwasanaethau gofal plant digonol, hygyrch ac o ansawdd i deuluoedd ar draws Sir Fynwy, gan gynnwys darparu oriau anghymdeithasol ar gyfer rhieni sy'n gweithio ac i deuluoedd mewn angen.
 - Mae'r gefnogaeth a ddarperir i warchodwyr plant yn cynnwys sesiynau briffio gwarchodwyr plant, cyllid ar gyfer hyfforddiant CYPOP5, pecynnau cychwyn busnes, grant cychwyn o £100 ar gyfer cyfarpar iechyd a diogelwch, hyfforddiant diogelu plant a llinell gyngor.
 - Mae gwarchodwyr plant yn gallu hysbysebu drwy'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd ac mae ganddynt eu grŵp Facebook eu hunain.
 - Byddai ariannu hyfforddiant Datblygiad Proffesiynol Parhaus pellach a hwyluso argaeledd grantiau yn fuddiol.
 - Nid oes gwarchodwyr plant ar hyn o bryd yn darparu gofal plant Cyfnod Sylfaen Addysg y Blynyddoedd Cynnar neu ddarpariaeth Dechrau'n Deg.

Adrannau Perthnasol yr Awdurdod Lleol

- Mae Cymdeithas Tai Sir Fynwy'n credu bod fforddiadwyedd, hyblygrwydd ac addasrwydd darpariaeth gofal plant yn Sir Fynwy'n llai na boddhaol. Mae angen cyfleusterau crèche a bwrsariaethau er mwyn i rieni gael mynediad i gyfleoedd

hyfforddiant.

- Mae Adran Gynllunio Sir Fynwy wedi derbyn tri chais cynllunio i addasu adeilad sy'n bodoli eisoes i mewn i feithrinfeydd dydd ers 2014, yr holl geisiadau yn ardal Y Fenni ac roedd y tri chais yn llwyddiannus ac maent erbyn hyn yn gweithredu. Yn gyffredinol nid oes angen caniatâd cynllunio i warchodwyr plant yn Sir Fynwy.
- Ysgolion Cynradd
 - Mae gan ysgol gynradd Kymin View yn Sir Fynwy gylch chwarae a chlwb brechwast rhad ac am ddim ar y safle; mae hefyd warchodwyr plant yn casglu o'r ysgol ond maent i gyd yn llawn. Mae rhieni wedi gwneud cais am glwb y tu allan i oriau ysgol a gofal plant amlapio ar gyfer meithrin ond gallai fforddiadwyedd fod yn broblem i rai rhieni.
 - Mae Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyr Magwyr ynghyd ag Ysgol Gynradd Gwndy yn ardal Cil-y-coed â chlwb chwarae ar y safle yn cynnig sesiynau gofal plant bore a phrynhawn a gofal amlapio ar gyfer meithrinfa'r ysgol; mae ganddynt glybiau brechwast rhad ac am ddim hefyd ac mae gan Ysgol Magwyr ofal cyn ysgol lle codir ffi. Roedd gofal plant adeg gwyliau ar gael yn y ddwy ysgol yn ystod gwyliau'r haf. Mae gwarchodwyr plant, clwb y tu allan i oriau ysgol cyfagos a dwy feithrinfa ddydd leol yn casglu plant o'r ddwy ysgol. Mae adborth oddi wrth rieni ynghylch mwy o hyblygrwydd aer gyfer y feithrinfa ysgol ac oriau hwy o ofal plant.
 - Mae gan Ysgol Gymraeg Y Fenni yn Y Fenni gylch meithrin ar y safle yn cynnig sesiynau bore a gofal plant amlapio ar gyfer meithrin yr ysgol; mae ganddynt hefyd glwb brechwast cyfrwng Cymraeg rhad ac am ddim a chlwb y tu allan i oriau ysgol. Mae gwarchodwyr plant, meithrinfeydd dydd a chlwb y tu allan i oriau ysgol cyfrwng Saesneg cyfagos yn casglu o'u hysgol, gan nad yw eu clwb y tu allan i oriau ysgol yn gallu gweithredu i'w lawn gapasiti o ganlyniad i ddiffyg staff cymwys sy'n siarad Cymraeg.
- Ysgolion Iach a Chyn-ysgolion
 - Mae'r ddarpariaeth ym mwyafrif y lleoliadau yn dda, os nad yn ardderchog.
 - Mae ystod dda o ddarpariaeth gofal plant hygyrch, hyblyg ar gael.
 - Mae'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn foddhaol i wael.

Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd

- Mae Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (GGD) Sir Fynwy ar hyn o bryd yn cyflenwi gwybodaeth a chyngror ynghylch gofal plant, darpariaeth y Blynyddoedd Cynnar a gwasanaethau lleol i blant a phobl ifanc. Mae'r GGD yn parhau i hwyluso darparwyr a llefydd gofal plant newydd a'r rheiny sy'n bodoli eisoes drwy gyfrwng y ffôn, yr e-bost, y wefan, y cyfryngau cymdeithasol, allgymorth gyda'r rhan fwyaf o'r ymholiadau'n cael eu derbyn drwy gyfrwng y wefan a thrwy facebook.
- Derbynnir adborth drwy bolau piniwn byr ar y ddesg gymorth, dweud eich dweud a chyflwyno ffurflenni gwasanaeth ar y wefan, drwy ffurflenni adborth a anfonir drwy gyfrwng e-bost a thrwy'r post a thrwy gyswllt uniongyrchol mewn digwyddiadau allgymorth.

- Mae canlyniadau'r ymholiadau hyn fel a ganlyn:
 - Mae 98.7% o ymholiadau'n fodlon â'r wybodaeth maent wedi'i derbyn drwy'r GGD.
 - Mae 73% o ymholiadau'n defnyddio gofal plant y bu iddynt glywed amdano drwy'r GGD.
 - Mae 65.2% o ymholiadau wedi gallu gwneud dewis gwybodus ynghylch gofal plant a gweithgareddau o ganlyniad i'r wybodaeth maent wedi'i derbyn drwy'r GGD.
 - Ni fu ymholiadau oddi wrth bobl a fethodd â chyrchu rhyw ffurf ar ofal plant.

Cyflogwyr Lleol

- Derbyniwyd ymatebion oddi wrth bedwar cyflogwr lleol yn unig yn amrywio mewn maint o 10 cyflogai i 17 o gyflogeion.
- Mae'r holl leoliadau'n cynnig trefniadau gwaith hyblyg i rieni/ofalwyr megis swyddi rhan amser ac oriau gwaith hyblyg, ynghyd ag amser i ffwrdd i fynychu apwyntiadau a chyngherddau plant.
- Honnodd dau o'r cyflogwyr fod ganddynt broblemau recriwtio a chadw o ganlyniad i ofal plant, roedd y cyflogwyr hyn yn cyflogi gweithwyr sifft ac yn disgwyl i staff weithio penwythnosau. .
- Nododd un cyflogwr fod y rhan fwyaf o'r cyflogeion yn defnyddio partneriaid neu'r teulu i edrych ar ôl plant gan nad yw'r ddarpariaeth gofal plant ar gael \r yr adegau mae ei hangen arnynt; hawliodd un arall fod gofal plant yn rhy ddrud i'w cyflogeion.

Grwpiau Ffocws â Phlant mewn Darpariaeth Gofal Plant y tu allan i oriau ysgol

Cynhaliwyd grwpiau ffocws_mewn 5 lleoliad_gofal plant y tu allan i oriau ysgol a chyfrannodd cyfanswm o 142 o blant rhwng 4 ac 11 oed i'r gweithgarwch ymgynghori hwn; roedd y canlyniadau o'r ymgynghoriad hwn fel a ganlyn:

- Roedd 88% o'r plant yn hoffi'u lleoliad a'r rhan fwyaf o'r gweithgareddau a ddarparwyd.
- Roedd 92% o'r plant yn hoffi'r staff oedd yn gweithio yn eu lleoliad.
- Roedd 82% o'r plant yn mwynhau bod gyda phlant o wahanol oedrannau.
- Dywedodd 80% o'r plant eu bod yn mynychu'r lleoliad am fod eu rhieni wedi wrthynt fod yn rhaid iddynt wneud.
- Cadarnhaodd 62% o'r plant eu bod eisiau mynychu.
- Byddai'n well gan 53% o'r plant petai'r sesiynau'n hwy.
- Dywedodd 47% o'r plant y byddai'n well ganddynt aros gartref na mynychu'u lleoliad.
- Mae 82% o'r plant yn derbyn gofal y tu allan i oriau ysgol am fod eu rhieni'n gweithio.
- Gwyddai 34% o'r plant y byddai'n rhaid iddynt fynychu darpariaeth gofal plant amgen pe na bai hwn ar gael.
- Mae 69% o'r plant yn mynychu darpariaeth gofal plant arall yn ogystal, megis clybiau cyn ysgol, clybiau gwyliau a gwarchodwyr plant.
- Mae 42% o'r plant yn mynychu clwb penodol am ei fod yn agos i'r cartref.

- Mae 22% o'r plant yn mynychu bob diwrnod y mae ar agor.
- Mae 24% o'r plant yn cael eu casglu gan rywun heblaw eu rhieni.
- Credai 54% o'r plant y gellid gwella'u lleoliad mewn rhyw ffordd.

15. Dadansoddiad o'r Bylchau a Meysydd ar gyfer Gwelliant

Ar y cyfan, mae ansawdd darpariaeth gofal plant yn Sir Fynwy'n dda iawn ac mae darpariaeth ddigonol i gwrdd ag anghenion y rhan fwyaf o deuluoedd, fodd bynnag, mae rhai bylchau mewn darpariaeth a gafodd eu nodi ac angen eu hunioni.

Mathau o Ofal Plant sydd Ar Gael

Yn seiliedig ar y data a ddarparwyd gan leoliadau gofal plant drwy'u datganiad SASS, yn enwedig mewn perthynas â llefydd gwag a rhestri aros, yna mae cymharu hyn â'r galw am ofal plant fel y tystiwyd mewn arolygon rhieni ac ymatebion i ymgynghoriadau oddi wrth randdeiliaid, ymddengys fod darpariaeth ddigonol o warchodwyr plant, gofal dydd llawn, gofal sesiynol a gofal ar ôl ysgol ledled Sir Fynwy. Mae ystod dda o wasanaethau'n cael eu cynnig gan y lleoliadau hyn ac maent yn gyffredinol yn ddigon hyblyg i gwrdd ag anghenion teuluoedd.

Mae clybiau brecwast rhad ac am ddim mewn mwy na 90% o'r ysgolion cynradd felly does fawr o alw am ofal cyn ysgol a dim ond un ysgol gynradd sydd yng Nghil-y-coed nad oes ganddi ryw fath o ofal cyn ysgol ar y safle.

Nid oes gofal sesiynol ar gael ym Mrynbuga a Rhaglan ond mae lleoliadau gofal dydd llawn a gwarchodwyr plant yn yr ardal hon sy'n darparu sesiynau gofal, felly nid yw'n fwlch sylweddol.

Dim ond cyflenwad cyfyngedig o glybiau gwyliau sydd ac nid ydynt ar gael ym mhob ardal yn Sir Fynwy, fodd bynnag, mae sawl gwarchodwr plant a lleoliad gofal dydd llawn yn darparu gofal gwyliau yn ogystal.

Mae darpariaeth chwarae mynediad agored ar gael yn unig yn ystod gwyliau ysgol ac nid oes darpariaeth chwarae mynediad agored yn ardal Brynbuga a Rhaglan. Nid oes un o'r darpariaethau chwarae mynediad agored wedi'i chofrestru felly fe gyfyngir y ddarpariaeth i ddwy awr o hyd.

Dim ond un crèche sydd wedi'i gofrestru yn Sir Fynwy ac fe gyfyngir y ddarpariaeth i blant ag anabledd, yn ôl yr ymatebion i'r ymgynghori; mae'r bwlch hwn mewn darpariaeth yn broblem arbennig i rieni yng ngwersyll y fyddin ychydig y tu allan i Gas-gwent ac ar gyfer rhieni sydd eisiau mynediad i gyfleusterau hyfforddiant.

Nid oes mamaethau yn Sir Fynwy wedi'u cofrestru drwy'r cynllun cymeradwyo gwirfoddol ac nid oes gennym wybodaeth mewn perthynas ag unrhyw famaethau sy'n gweithredu o fewn yr awdurdod, er ein bod yn gwybod bod rhieni'n defnyddio mamaeth ar

gyfer gofal plant.

Meysydd ar gyfer Gwelliant:

- *Mae angen cynnydd yn nifer y clybiau gwyliau a'r ystod o ofal plant sydd ar gael yn ystod gwyliau ysgol.*
- *Mae angen chwarae mynediad agored yn ystod y tymor, ynghyd ag yn ystod gwyliau ysgol, ac mae angen cofrestru'r ddarpariaeth hon er mwyn cynyddu hyd y sesiynau a gynigir.*
- *Mae angen cyfleusterau crèche ledled Sir Fynwy.*
- *Mae angen mwy o wybodaeth mewn perthynas â mamaethau'n gweithredu yn Sir Fynwy.*

Oedran y Plant y Mae Gofal Plant ar Gael Iddynt

Mae gwarchodwyr plant yn gallu darparu ar gyfer ystod oedran fwyaf plant, o 0 – 17 mlwydd oed, fodd bynnag, nis oes galw ar hyn o bryd am lefydd i blant 15 – 17 mlwydd oed, ac ychydig iawn o alw ar gyfer plant 12 – 14 oed.

Ychydig iawn o blant dan 5 oed sy'n cael mynediad i glybiau gwyliau; ta waeth, mae'r rhan fwyaf o warchodwyr plant a mwy na hanner y lleoliadau gofal dydd llawn yn cynnig gofal gwyliau ac mae llefydd ar gael ym mhob ardal yn sir Fynwy ar gyfer y grŵp oedran hwn am 12 wythnos o'r gwyliau ysgol, ac eithrio wythnos y Nadolig.

Nid oes meysydd arwyddocaol ar gyfer gwelliant

Fforddiadwyedd Gofal Plant

Tynnir sylw at fforddiadwyedd gan rieni, cyflogwyr a rhanddeiliaid fel rhwystr i ofal plant.

Mae 39% o glybiau y tu allan i oriau ysgol a phob darpariaeth chwarae mynediad agored heb eu cofrestru, felly nid yw rhieni'n gallu gwneud cais am gredydau treth.

Mae nifer y rhai sy'n manteisio ar elfen gofal plant Credydau Treth Gwaith a Chynlluniau Cymorth gan Gyflogwyr yn wael yn Sir Fynwy a hawliodd 62% o ymatebwyr na wyddent ble i fynd i gyrchu gwybodaeth mewn perthynas â chymorth ariannol ar gyfer gofal plant.

Meysydd ar gyfer Gwelliant:

- *Dylai clybiau y tu allan i oriau ysgol a darparwyr chwarae mynediad agored gael eu hannog a'u cefnogi i gofrestru gydag AGGCC.*
- *Mae angen hwyluso'n ehangach argaeledd Credydau Treth Gwaith a Chynlluniau Cymorth gan Gyflogwyr.*

Adegau y mae Gofal Plant ar Gael

Mae llawer o leoliadau'n cynnig ystod o ddarpariaethau o wahanol hyd er mwyn cwrdd ag anghenion unigol teuluoedd yn ystod diwrnod gwaith nodweddiadol.

Ychydig iawn o ddarparwyr sy'n cynnig gofal plant cyn 8 y bore ac ar ôl 6 yr hwyr a'r rhan fwyaf o'r rhain yw gwarchodwyr plant; nid oes gofal plant ar gael ar ôl 10 yr hwyr a dim ond un gwarchodwr plant sy'n cynnig gofal penwythnos.

Cytunodd 47% o'r ymatebwyr i'r arolwg rhieni nad oedd gofal plant ar gael ar yr adegau roedd ei angen arnynt a bod y diffyg hyblygrwydd hwn yn rhwystr i gyrchu gofal plant. Cadarnhaodd dau gyflogwr lleol gyda gweithwyr sifft a staff yn gweithio penwythnosau fod hyn yn peri problemau recriwtio a chadw staff.

Maes ar gyfer Gwelliant:

- *Mae angen mwy o ddarpariaeth yn ystod oriau nodweddiadol megis cyn 8 y bore, ar ôl 6 yr hwyr, dros nos ac ar benwythnosau.*

Lleoliad Gofal Plant

Mae dosbarthiad daearyddol darpariaeth gofal plant yn Sir Fynwy'n dda a'i fod yn gymharol i boblogaeth a nodweddion pob ardal; atgyfnerthir y casgliad hwn gan safbwyntiau rhanddeiliaid a asesodd lleoliad gofal plant yn Sir Fynwy fel da neu ardderchog.

Lle mae bylchau, tuedda'r rhain i fod mewn perthynas â'r math o ofal plant, fel y cyfeiriwyd ato uchod, yn hytrach na lleoliad y gofal plant. Mewn rhai ardaloedd, gallai diffyg math penodol o ofal plant ymddangos, megid gofal gwyliau yng Nghil-y-coed a Threfynwy, ond yn gyffredinol darperir y gwasanaethau hyn yn yr ardal gan fath arall o ofal plant felly mae'r galw'n dal i gael ei ddiwallu.

Yr unig eithriad i hyn yw;’r diffyg darpariaeth mewn chwarae mynediad agored yn ardal Brynbuga a Rhaglan yn ystod gwyliau ysgol.

Maes ar gyfer Gwelliant:

- *Mae angen darpariaeth chwarae mynediad agored yn ardal Brynbuga a Rhaglan yn ystod gwyliau ysgol ac ym mhob ardal yn ystod y tymor.*

Darpariaeth Gofal Plant Cyfrwng Cymraeg

Disgrifir darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg fel gwael gan y rhan fwyaf o randdeiliaid ac ymatebodd 65% o rieni nad oedd digon o ofal plant cyfrwng Cymraeg ar gael.

Mae prinder sylweddol o ofal plant cyfrwng Cymraeg yn Sir Fynwy; dim ond un cylch meithrin yn Y Fenni sy’n cynnig gofal sesiynol ac un clwb y tu allan i oriau ysgol ynghlwm wrth yr ysgol Gymraeg yn Y Fenni. Nid oes gofal dydd llawn, gwarchodwyr plant, gofal gwyliau neu ddarpariaeth chwarae mynediad agored yn gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae’r holl ddarparwyr gofal dydd a gofal sesiynol, ac eithrio’r cylch meithrin, yn disgrifio’u hunain fel Saesneg gyda rhai elfennau Cymraeg. Ta waeth, disgrifir y rhan fwyaf o warchodwyr plant a darparwyr y tu allan i oriau ysgol a phob darpariaeth chwarae mynediad agored fel Saesneg yn unig.

Maes ar gyfer Gwelliant:

- *Mae angen mwy o ofal plant cyfrwng Cymraeg o bob math ym mhob ardal o Sir Fynwy, yn enwedig y rheiny sy’n darparu gofal dydd llawn yn ystod y tymor ac yn ystod gwyliau. Dylai lleoliadau gofal plant gael eu hannog i ddarparu o leiaf rai elfennau dwyieithog.*

Darpariaeth Gofal Plant ar gyfer Gwahanol Gategoriâu Iaith

Nid oes darpariaeth gofal plant ar gael mewn ieithoedd ar wahân i’r Saesneg neu’r Gymraeg yn Sir Fynwy ond nid oes galw ychwaith.

Yn ôl Cyfrifiad 2011, mae 98% o boblogaeth Sir Fynwy'n Brydeinig a dim ond 2.1% o'r ymatebwyr i'r arolwg rhieni a siaradai ieithoedd ar wahân i'r Saesneg neu'r Gymraeg ac roedd y rhain yn amrywiol; nid oedd patrwm arbennig. Felly, byddai'n anodd datblygu darpariaeth gofal plant gynaliadwy mewn gwahanol ieithoedd ac nid yw'n angenrheidiol cwrdd â galwadau rhieni yn yr awdurdod ar hyn o bryd.

Nid oes meysydd arwyddocaol ar gyfer gwelliant

Defnyddir y dadansoddiad hwn o'r bylchau i hysbysu gwaith i'r dyfodol, i nodi blaenoriaethau a dyrannu cyllid.

16. Aseiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant – Cynllun Gweithredu

Paratowyd y Cynllun Datblygu er mwyn mynd i'r afael â'r bylchau y tynnwyd sylw atynt a lleihau'r rhwystrau i gael mynediad i ofal plant a nodwyd yn yr Aseiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant. Cynhwysir manylion pellach o fewn Atodiad 14.

Targed	Paham ei fod yn Ofynnol?	Sut Caiff ei Gyflawni?	Sut Caiff ei Fonitro?	Amserlen
Datblygu lleoliad gofal plant cyfrwng Cymraeg yn ne'r sir a chynyddu nifer y llefydd gofal plant cyfrwng Cymraeg yng ngogledd y sir 20%.	Nid oes digon o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, yn arbennig gofal dydd llawn, i gwrdd ag anghenion rhieni sy'n gweithio. Mae'n ofynnol i ni hyrwyddo'n weithredol addysg cyfrwng Cymraeg.	Bydd y Blynyddoedd Cynnar Sir Fynwy'n gweithio'n agos gyda'r Mudiad Meithrin a'r darparwyr presennol i ehangu darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg.	Cynhwysir nifer o lefydd gofal plant cyfrwng Cymraeg yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) a chaiff hwn ei adolygu bob tymor.	Medi 2017
Cynyddu oriau agor o leiaf 1 darparwr sydd eisoes yn bodoli ym mhob un o'r 5 ardal i gynnwys oriau nodweddiadol.	Mae diffyg gofal plant ar gael i gwrdd ag anghenion rhieni sy'n gweithio oriau annodweddiadol megis gweithwyr sifft a'r rheiny sy'n gweithio ar benwythnosau.	Cynnig cymelliadau ariannol i annog darparwyr presennol gofal plant i ehangu'u horiau agor a darparu gofal plant yn ystod oriau annodweddiadol.	Bydd GGD yn anfon ffurflenni diweddarau i ddarparwyr gofal plant a chaiff y cyflenwad gofal plant ei ddiweddarau'n unol â hynny a'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.	Mawrth 2018
Cofrestru 5 gwarchodwr plant newydd ar draws Sir Fynwy a chynnal o leiaf y lefel gyfredol o ddarpariaeth.	Mae trosiant uchel o warchodwyr plant o ganlyniad i natur dros dro'r swydd. Gwarchodwyr plant sydd yn y sefyllfa orau i	Darparu sesiynau briffio a chefnogaeth i warchodwyr plant drwy'r broses gofrestru. Parhau i gynnig cymorth ariannol ar	Caiff nifer y gwarchodwyr plant sydd newydd eu cofrestru yn ôl adroddiadau misol AGGCC eu monitro bob	Mawrth 2018 ac yn barhaus

	ddarparu gofal plant yn ystod oriau annodweddiadol.	gyfer hyfforddiant CYPOP5 a grantiau cychwyn.	tymor, ynghyd â nifer y grantiau cychwyn a ddyrennir.	
Targed	Paham ei fod yn Ofynnol?	Sut Caiff ei Gyflawni?	Sut Caiff ei Fonitro?	Amserlen
Datblygu 3 lleoliad gofal plant ychwanegol mewn gwahanol ardaloedd o Sir Fynwy.	Mae angen cynyddu'r ystod o ofal plant sydd ar gael yn ystod gwyliau ysgol i gwrdd ag anghenion rhieni sy'n gweithio.	Swyddog Datblygu Plant i weithio'n agos gyda darparwyr presennol i ehangu'u darpariaeth. Cynnig grantiau datblygu i gwrdd â chostau cychwyn.	Cynhwysir hyn fel targed ar gyfer Grant Gofal Plant y tu allan i oriau ysgol ac fe'i monitrir yn chwarterol.	Gorffennaf 2017
Datblygu 2 crèche cofrestredig neu annog darparwyr sy'n bodoli eisoes i gynnig cyfleusterau crèche.	Nid oes cyfleusterau crèche yn y rhan fwyaf o ardaloedd yn Sir Fynwy ac mae galw am y math hwn o ofal plant.	Cysylltu â chyfleusterau hamdden a darparwyr presennol i drafod y posibilrwydd o ddatblygu cyfleusterau crèche ar y safle a chynnig cymorth ariannol. Gweithio'n agos gyda'r Grŵp Monitro Chwarae i ehangu darpariaeth chwarae mynediad agored ar draws yr awdurdod.	Cynhwysir hyn fel targed ar gyfer y Cynllun Gwella Gwasanaeth (CGG) ac fe'i monitrir yn chwarterol	Mawrth 2018
Cynyddu amserau agor darpariaeth chwarae mynediad agored i gynnwys hanner tymor	Mae chwarae mynediad agored ar hyn o bryd ar gael yn unig yn ystod gwyliau'r haf ac mae		Adolygir a monitrir hyn fel rhan o'r Asesiad o Ddigonolrwydd Chwarae.	Hydref 2017

a gwyliau'r Pasg.	galw am fwy o'r math hwn o ofal plant.			
Cofrestru 3 chlwb y tu allan i oriau ysgol gydag AGGCC.	Mae nifer sylweddol o glybiau y tu allan i oriau ysgol heb eu cofrestru gydag AGGCC felly mae cyfyngiad ar nifer yr oriau y gallant weithredu pob sesiwn ac ni all rhieni hawlio Credydau Treth Gwaith.	Gweithiwr Datblygiad Gofal Plant i weithio'n agos gyda'r lleoliadau gofal plant y tu allan i oriau ysgol i ddarparu cyngor busnes a'u cefnogi drwy'r broses gofrestru.	Cynhwysir hyn fel targed ar gyfer Grant Gofal Plant y Tu Allan i Oriau Ysgol ac fe'i monitrir yn chwarterol.	Mawrth 2018

Targed	Paham ei fod yn Ofynnol?	Sut Caiff ei Gyflawni?	Sut Caiff ei Fonitro?	Amserlen
Darparu hyfforddiant Cymraeg ar gyfer 12 gweithiwr plant.	Datblygu sgiliau iaith Gymraeg gweithwyr gofal plant a chynyddu nifer y lleoliadau gofal plant sy'n cynnig rhyw fath o elfennau dwyieithog.	Nodi cwrs Cymraeg addas, cwrdd â chost yr hyfforddiant a hyrwyddo gyda darparwyr gofal plant.	Cedwir rhestr presenoldeb a chyflawnir dilyniant i asesu'r effaith mae hyn wedi'i gael ar eu lleoliad.	Mawrth 2018
Parhau i hyrwyddo'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd a hysbysebu argaeledd cymorth ariannol i gynorthwyo gyda chost gofal plant.	Fforddiadwyedd yw prif rwystr cael mynediad i ofal plant . Mae nifer y rhai sy'n manteisio ar elfen gofal plant Credydau Treth Gwaith a Chynlluniau a Gefnogir gan Gyflogwyr yn wael a chofnododd rhai rhieni nad oeddent yn gwybod ble i gael y	Bydd Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Sir Fynwy'n defnyddio gwefan GGD a'r cyfryngau cymdeithasol facebook a twitter i hyrwyddo credydau treth \ darparu gwybodaeth mewn perthynas â chymorth ariannol ar gyfer gofal	Mae'r Swyddog Gwybodaeth i Deuluoedd yn cynhyrchu adroddiadau misol gan gynnwys manylion gweithgareddau hyrwyddol. Mae defnyddwyr gwefan GGD yn cwblhau ffurflenni gwerthuso.	Rhagfyr 2017 ac yn barhaus

	wybodaeth ariannol hon.	plant.		
Cynnwys manylion am famaethau ar wefan GGD.	Nid yw Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Sir Fynwy ar hyn o bryd yn meddu unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â mamaethau.	Cysylltu â sefydliadau mamaeth a defnyddio gwefan GGD a'r cyfryngau cymdeithasol i holi ynghylch mamaethau.	Cynhelir adolygiad o gyflenwad gofal plant yn flynyddol a bydd hwn yn cynnwys mamaethau.	Mawrth 2018